

Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

Awst 2018

PC 25: Gwiriadau Iechyd Canolfannau Fanwerthu

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Mae’r ddogfen hon ar gael i’w gweld a’i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i’w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

Gallwn ddarparu’r ddogfen hon ar CD, yn electronig neu mewn print mawr a gallwn ei chyfieithu i ieithoedd eraill, cysylltwch â y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw’n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o’r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a

Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau’r drwydded hon i’r Arolwg Ordnans.

Cynnwys

1 Cyflwyniad 4
2 Canllawiau a Pholisi Cynllunio Cenedlaethol 4
3 Dangosyddion 5
4 Crynodeb o'r casgliadau 7
5 Llandudno 13
6 Bae Colwyn 35
7 Llanfairfechan 55
8 Penmaenmawr 65
9 Conwy 75
10 Cyffordd Llandudno 86
11 Abergele 96
12 Llanrwst 107
Atodiad 1: Geirfa 118
Atodiad 2: Mapiau dosbarthiadau defnydd 120
Atodiad 3: Canlyniadau arolwg canol tref 131

1 Cyflwyniad

1.1 Mae hwn yn un o gyfres o Bapurau Cefndir sydd yn gysylltiedig â Chynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy (CDLlN). Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun Strategaeth ac i'w Archwilio a Ffefrir, rhaid iddo egluro sut mae'r polisi wedi'i lunio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd. Mae'r Papur Cefndir hwn yn edrych ar gyflwr manwerthu canol trefi ar draws ardal Bwrdeistref Sirol Conwy (gan eithrio Parc Cenedlaethol Eryri).

1.2 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys data a gwaith tirfesur sy'n ddangosyddion sy'n dangos cyflwr manwerthu Prif Feysydd Siopa a Pharthau Siopa Bwrdeistref Sirol Conwy yng Nghynllun Datblygu Lleol Conwy (CDLl).

2 Canllawiau a Pholisi Cynllunio Cenedlaethol

2.1 Mae para 10.2.1 Polisi Cynllunio Cymru yn nodi: "Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu strategaeth a pholisïau clir drwy eu cynlluniau datblygu ar gyfer datblygu manwerthu sy'n ceisio cyflawni canolfannau manwerthu a masnachol bywiog, deniadol a hyfyw. Dylent osod fframwaith ar gyfer dyfodol canolfannau manwerthu a masnachol yn eu hardal sy'n hybu sector manwerthu llwyddiannus gan gefnogi cymunedau presennol." Mae Para 10.1.2 yn gosod yr amcanion cenedlaethol ar gyfer canolfannau manwerthu a masnachol:

- Hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol trefol a gwledig hyfyw fel y lleoliadau mwyaf cynaliadwy i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu a chynnal busnes
- Cynnal a gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac apêl canolfannau manwerthu a masnachol; a
- Gwella mynediad at, ac o fewn, canolfannau manwerthu a masnachu drwy bob math o drafnidiaeth, yn enwedig cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

2.2 Dylai defnydd Manwerthu A1 barhau i fod yn sail i ganolfannau manwerthu a masnachol, ond dylai polisïau lleol annog amrywiaeth yn y canolfannau, gan gynnwys gwasanaethau ariannol a phroffesiynol (A2), bwyd a diod (A3), swyddfeydd (B1), gwestai (C1), sefydliadau addysgol ac amrheswyl eraill (D1), hamdden (D2) a defnyddiau sui generis penodol eraill fel theatrau a thai golchi. Dylid annog datblygiadau defnydd cymysg. Mae defnyddiau hamdden hefyd yn briodol os yw amwynder yn cael ei ddiogelu'n addas.

2.3 Mae paragraff 10.3.1 yn nodi y dylai cynlluniau datblygu: "fonitro iechyd canolfannau manwerthu i asesu effeithiolrwydd polisïau".

2.4 Polisi Cynllunio Cymru: Mae Argraffiad 10 wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus diweddar (daeth i ben ym mis Mai 2018), i ddarparu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu y bydd polisïau yn galluogi mynediad a chludiant cynaliadwy at gyfleusterau, gan gynnwys manwerthu. Dylai polisïau fanteisio ar ganolfannau manwerthu a masnachol sy'n bodoli eisoes fel canolfannau gweithgarwch economaidd a chymdeithasol, gydag amrywiaeth eang o wasanaethau, sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod yr iaith Gymraeg.

2.5 Nodyn Cyngor Technegol 4: Mae Canol Trefi a Manwerthu (TAN4) yn nodi ym mharagraff 13.2 bod: "Y defnydd o wiriadau iechyd rheolaidd yn darparu modd o fonitro

newidiadau dros amser ac yn rhoi dealltwriaeth dda i'r awdurdod cynllunio lleol o gadernid ei ganolfannau manwerthu a masnachol i newid, a mesur arwyddocâd effaith datblygiadau newydd."

2.6 Mae TAN4 hefyd yn argymell dangosyddion ar gyfer mesur bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canol trefi (para 13.3). Lle mae'r data ar gael, mae'r rhain wedi eu cynnwys. Mae TAN4 yn ychwanegu y gellir defnyddio dangosyddion lleol hefyd.

2.7 Mae yna ddiffiniadau ar gyfer y termau a ddefnyddir yn Atodiad 1.

3 Dangosyddion

3.1 Dosbarthiadau defnydd

3.1.1 Mae dosbarthiadau defnydd yn helpu i ddangos yr amrediad a gynigir ar gyfer manwerthu a defnydd arall yng nghanol y dref. Mae amrywiaeth eang o siopau a gwasanaethau yn bwysig i ganol trefi allu parhau'n gystadleuol a denu cwsmeriaid. Dylai'r ystod fod yn gytbwys i sicrhau effaith gadarnhaol ar hyfywedd a bywiogrwydd. Mae sicrhau ystod da yn golygu y cedwir yr ymwelwyr yng nghanol y dref, ac maent yn llai tybygol o siopa yn rhywle arall.

3.1.2 Mae cymhariaeth dros amser rhwng 2014 a 2017 wedi'i gynnwys. Mae 2014 wedi'i ddewis gan mai hon oedd blwyddyn gyntaf arolygon ar ôl mabwysiadu CDLl.

3.2 Isddosbarth manwerthu

3.2.1 Mae graddfa ac amrywiaeth unedau manwerthu ym Mhrif Ardaloedd Siopa a Pharthau Siopa penodedig y CDLl yn effeithio ar hyfywedd a bywiogrwydd. Mae'n bwysig i ganol trefi sicrhau ystod eang o wasanaethau er mwyn parhau'n gystadleuol a denu cwsmeriaid. Mae edrych ar isddosbarth manwerthu unedau yn helpu i ddangos y cydbwysedd yng nghanol pob tref. Mae hyn hefyd yn cynnwys manylion unedau manwerthu sy'n gwerthu nwyddau cyfleus a chymhariaeth. Mae angen cydbwysedd o'r ddau i annog a chadw cwsmeriaid.

3.2.2 Mae cymhariaeth dros amser rhwng 2014 a 2017 wedi'i gynnwys. Mae 2014 wedi'i dewis gan mai hon oedd blwyddyn gyntaf arolygon ar ôl mabwysiadu CDLl.

3.2.3 Mae enghreifftiau cymhariaeth a nwyddau cyfleus yn Atodiad 1.

3.3 Atyniadau allweddol ac amlfasnachwyr

3.3.1 Gall ansawdd ac amrywiaeth masnachwyr a gynrychiolir effeithio ar fywiogrwydd hefyd. Mae enwau manwerthu cenedlaethol yn bwysig i ddenu cwsmeriaid i dref. Mae manwerthwyr annibynnol hefyd o fudd i fywiogrwydd y dref drwy greu hunaniaeth unigryw, felly mae o fudd i ganol trefi sicrhau cymysgedd cytbwys o enwau cenedlaethol a manwerthwyr annibynnol. Gweler Atodiad 1 ar gyfer diffiniadau o atynwyr allweddol a masnachwyr eraill.

3.3.2 Mae siopau elusen wedi'i gynnwys fel categori ar wahân. Mae barn yn amrywio o ran pa un a yw siopau elusen o fudd i'r olygfa fanwerthu a bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi.

3.3.3 Mae cymhariaeth dros amser rhwng 2014 a 2017 wedi'i gynnwys. Mae 2014 wedi'i ddewis gan mai hon oedd blwyddyn gyntaf arolygon ar ôl mabwysiadu CDLl.

3.4 Hygyrchedd

3.4.1 Bydd cyfran uchel o ddefnyddwyr canol tref yn dewis teithio mewn car. Mae parcio digonol a chyfleus felly yn bwysig i fywiogrwydd canol tref. Mae angen nifer priodol o lefydd tymor byr wedi eu lleoli'n gyfleus i sicrhau bod anghenion siopwyr yn cael eu diwallu. Mae mannau arhosiad hirach fel arfer mewn lleoliadau llai cyfleus i weithwyr ac ymwelwyr arhosiad hirach eu hangen hefyd fel arfer. Mae 15% o fannau gwag yn cael ei ystyried fel y trothwy lleiaf ar gyfer argaeledd parcio ar y stryd. Mae arolwg o feysydd parcio wedi'i gynnal yng nghanol trefi Llandudno a Bae Colwyn.

3.4.2 Mae Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn ceisio sicrhau bod canolfannau manwerthu yn hygyrch i gludiant cyhoeddus. Mae manylion gwasanaethau bws a thrên wedi eu cynnwys ar gyfer pob canol tref. Bydd sicrhau bod canol tref yn hygyrch i ystod o wasanaethau o drefi lleol, sy'n fynych, yn arwain at fwy o ymwelwyr i ganol y dref ac yn lleihau tagfeydd traffig. Ar gyfer canolfannau llai, bydd cysylltiadau da i ganolfannau mwy yn dod â mwy o ymwelwyr i'r ganolfan leol ac yn annog teithiau cysylltiol.

3.5 Llif cerddwyr

3.5.1 Mae llif cerddwyr i ganol tref, fel siopwyr, twristiaid, trigolion neu weithwyr yn ffactor pwysig, sy'n effeithio ar lwyddiant busnesau canol tref. Po fwyaf y llif, po fwyaf y nifer posibl o siopwyr a gwariant, a gwell masnach canolfan fanwerthu. Roedd y nifer o bobl yn mynd i'r ddau gyfeiriad am ddeg munud wedi'i gofnodi mewn lleoliadau allweddol yn Llandudno a Bae Colwyn.

3.6 Cyfraddau gwacter

3.6.1 Gall unedau gwag effeithio ar hyfywedd a bywiogrwydd canol tref. Mae yna nifer o ffactorau sy'n gallu effeithio ar gyfraddau gwacter, felly mae angen cymryd gofal wrth ddefnyddio hwn fel dangosydd, gan nad yw cyfraddau gwacter isel bob amser yn ddangosydd iechyd manwerthu. Gall unedau gwag hirdymor fodd bynnag, ddangos problem gyda chanol tref, hyd yn oed pan fydd gwacter cyffredinol yn isel.

3.6.2 Mae'r ffigwr a ddefnyddir ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnwys yr unedau manwerthu yn y Prif Ardaloedd Siopa a Pharthau Siopa, fel y dyluniwyd yn CDLl Conwy yn unig. Nid yw'n cynnwys unedau manwerthu yn y Fwrdeistref Sirol.

3.6.3 Mae cymhariaeth dros amser rhwng 2014 a 2017 wedi'i gynnwys. Mae 2014 wedi'i ddewis gan mai hon oedd blwyddyn gyntaf arolygon ar ôl mabwysiadu CDLl.

3.7 Barn cwsmeriaid

3.7.1 Mae arolygon rheolaidd defnyddwyr canol tref a busnesau yn gallu helpu i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd gwelliannau a rheoli canol tref. These surveys have only been conducted in the larger town centres of Llandudno and Colwyn Bay. Mae'r arolygon hyn wedi'u cynnal yng nghanol trefi mwyaf Llandudno a Bae Colwyn yn unig.

3.7.2 Mae'r arolwg defnyddwyr canol tref yn dangos barn y bobl sy'n ei defnyddio. Cwblhaodd 100 o bobl yr arolygon ym mhob canol tref. Mae'r canlyniadau'n dangos darlun mwy manwl o'r hyn sy'n gadarnhaol ac yn negyddol am ganol tref.

3.7.3 Roedd y cwestiynau'n cynnwys prif ddiben, pa mor aml maent yn ymweld, sut oeddent yn teithio, o lle wnaethon nhw deithio, hyd yr ymweliad, agweddau cadarnhaol a negyddol o ganol y dref ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau.

3.7.4 Mae arolwg hyder busnes yn helpu i sefydlu economi'r dref ac amodau masnachu busnesau canol tref. Mae busnesau lleol cadarn yn golygu economi leol fywiog fydd o fudd i ganol tref.

3.7.5 Roedd cwestiynau yn cynnwys natur a math o fusnes, lle maent wedi eu lleoli, nifer o weithwyr, ers faint maent wedi bod yn gweithredu, trosiant a phroffidioldeb, a ydynt wedi dioddef unrhyw drosedd, agweddau cadarnhaol a negyddol o ganol tref ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau.

3.8 Amgylchedd naturiol ac adeiledig

3.8.1 Mae ansawdd amgylchedd yn bwysig i siopwyr a pherchnogion busnes yng nghanol trefi. Mae sbwriel, graffiti a choed wedi eu hystyried ar gyfer canol trefi mwy Llandudno a Bae Colwyn.

3.8.2 Mae dynodiadau hanesyddol, fel adeilad rhestredig, ardaloedd Cadwraeth, Tirweddau Hanesyddol, parciau hanesyddol a gerddi a Safle Treftadaeth y Byd UNESCO yn rhan o dreftadaeth Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae llawer o'r dynodiadau hyn i'w gweld yn a ger canolfannau manwerthu dynodedig y CDLl. Maent yn cyfrannu'n sylweddol at amgylchedd adeiledig amlwg ac yn creu teimlad o gymeriad unigryw ar gyfer llawer o ganol trefi.

3.9 Trosedd a diogelwch

3.9.1 Mae ymdeimlad o ddiogelwch a nifer isel o droseddau'n cyfrannu at iechyd canol tref. Bydd cyfraddau trosedd uchel a theimlo'n anniogel yn atal busnesau rhag sefydlu yng nghanol tref ac yn atal ymwelwyr rhag ymweld. Mae mapiau trosedd wedi eu cynnwys ar gyfer pob canolfan fanwerthu, sy'n dangos mannau gyda'r nifer o ddigwyddiadau. Dylid nodi yn gyffredinol, mae Bwrdeistref Sirol Conwy yn ardal gyda lefelau isel o drosedd.

3.9.2 Mae yna hefyd gwestiwn yn yr arolwg hyder busnes (gweler barn Cwsmeriaid uchod) o ran bod yn ddioddefwr trosedd ac un ar ddiogelwch yn yr arolwg defnyddwyr canol tref.

4 Crynodeb o'r casgliadau

4.1 Llandudno

- Mae arolygon yn dangos bod 71% o fusnesau yn y CDLl yn siopau A1, sy'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.
- O'r unedau A1, mae cyfran uchel o'r rhain yn gwerthu nwyddau cymharol yn arbennig yng nghanol tref o Brif Ardal Siopa dynodedig y CDLl.

- O’r unedau A1, mae o gwmpas traean yn enwau brand manwerthu cenedlaethol. Mae hyn yn cymharu’n gyffredinol â’r cyfartaledd cenedlaethol, ond mae'r prif atyniadau ychydig yn llai. Mae yna gyfran uchel o fanwerthwyr annibynnol ym Mharth Siopa dynodedig y CDLl, sy’n helpu i sefydlu hunaniaeth unigryw.
- Mae nifer y llwybrau bysiau a threnau, a pha mor aml y ceir gwasanaethau, yn dangos bod Llandudno'n hygyrch iawn gyda chludiant cyhoeddus.
- Mae arolygon deiliadaeth meysydd parcio yn nodi bod yna fater gyda pharcio ar y stryd yn Llandudno, gan fod y nifer o fannau gwag yn isel. Fodd bynnag, mae yna fannau gwag yn y meysydd parcio mwy.
- Mae nifer y cwsmeriaid sy’n mynd heibio’n uchel yng nghraidd manwerthu Prif Ardal Siopa’r CDLl, fodd bynnag, mae’n is yn y Parthau Siopa, sy’n nodi y gall cylchrediad o amgylch y dref fod yn well.
- Mae data'r llefydd gwag ar gyfer Llandudno’n dangos lefel gyfartalog o 6% ar draws y dref, sy’n is na’r cyfartaleddau cenedlaethol.
- O ran perfformiad busnes diweddar, dywedodd 45% fod trosiant wedi cynyddu neu aros yr un fath dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae’r ffigwr cyfunol hwn yn cymharu â’r cyfartaledd cenedlaethol o 44% i drefi bach ond yn llai na’r trefi mawr (71%). Roedd cyfran busnesau Llandudno oedd wedi cynyddu neu gynnal eu proffidioldeb yn y 12 mis diwethaf yn 52% ac yn sylweddol is na’r cyfartaledd cenedlaethol i drefi bach (71%) a mawr (66%).
- Wrth edrych tuag at y dyfodol, mae 52% o fusnesau yn disgwyl i drosiant fynd i fyny neu aros yr un fath o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol (61%) ac mae hyn yn llai nag ar gyfer trefi mawr (79%) a bach (71%) yn genedlaethol.
- O’r ymateb gan fusnesau i’r arolwg, mae cwsmeriaid twristiaeth posibl (72%) a chwsmeriaid lleol (70%) yn cael eu hystyried yn allweddol gadarnhaol o gael eu lleoli yn Llandudno. Mae ffyniant (48%), nifer yr ymwelwyr (45%), ymddangosiad ffisegol (43%), cynnig manwerthu (42%), lleoliad (35%), digwyddiadau/gweithgareddau (32%) a chysylltiadau cludiant (27%) i gyd yn cael eu hystyried yn gadarnhaol gan o leiaf chwarter y busnesau wnaeth ymateb. Mae’r rhain yn cymharu’n gyffredinol â chyfartaledd cenedlaethol, heblaw cwsmeriaid twristiaeth a digwyddiadau/gweithgareddau, sy’n sylweddol uwch.
- O ran canfyddiadau negyddol ynglŷn â chael eu lleoli yn Llandudno, roedd mwyafrif o fusnesau wnaeth ymateb yn ystyried parcio (62%) a gwerth rhent (50%) yn faterion allweddol. Mae parcio yn sylweddol uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gwerth rhent yn debyg.
- Pan ofynnwyd am agweddau cadarnhaol Llandudno, mae defnyddwyr yn amlwg yn fwy cadarnhaol nag yn genedlaethol. Roedd ymddangosiad ffisegol (100%), glanweithdra (99%), gwasanaeth cwsmeriaid (97%), caffis / bwytai (96%), cynnig manwerthu (94%), mynediad at wasanaethau (91%) i gyd yn sgorio’n uchel iawn.
- O ran agweddau negyddol, roedd yr ymatebion gan ddefnyddwyr canol tref yn isel iawn, gyda meysydd parcio yn unig yn cael eu hystyried yn wael gan fwy na thraean o’r ymatebwyr.
- Mae nifer y troseddau taflu sbwriel a gofnodwyd yng nghanol y dref CDLl dynodedig yn isel.

- Mae yna nifer o adeiladu rhestredig yng nghanol y dref. Maent yn cynrychioli rhan allweddol o dreftadaeth adeiledig y Fwrdeistref Sirol. Mae yna hefyd Ardal Gadwraeth ddynodedig a Thirwedd Hanesyddol.
- Mae yna ardaloedd penodol lle ceir troseddau mynych yn Llandudno, ond mae lefel gyffredinol y troseddau a gofnodir yn cael ei hystyried yn isel.

4.2 Bae Colwyn

- Mae arolygon yn dangos bod 72% o fusnesau yn y CDLl yn siopau A1, sy'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.
- O'r unedau A1, mae cyfran uchel o'r rhain yn gwerthu nwyddau cymharol yn arbennig yng nghanol tref o Brif Ardal Siopa dynodedig y CDLl.
- O'r unedau A1, mae tua chwarter yn enwau brand manwerthu cenedlaethol. Mae hyn yn cymharu'n gyffredinol â'r cyfartaledd cenedlaethol i drefi bach, ond mae'r prif atyniadau yn llai. Mae yna gyfran uchel o fanwerthwyr annibynnol ym Mharth Siopa dynodedig y CDLl, sy'n helpu i sefydlu hunaniaeth unigryw.
- Mae nifer y llwybrau bysiau a threnau, a pha mor aml y ceir gwasanaethau, yn dangos bod Bae Colwyn yn hygyrch iawn gyda chludiant cyhoeddus.
- Mae arolygon deiliadaeth parcio yn dangos yn gyffredinol bod Bae Colwyn yn lle cymharol hawdd i ddod o hyd i fan parcio yn ystod yr wythnos, gyda 30% o lefydd ar gael ar ddiwrnod prysur a 32% ar ddiwrnod arferol. Mae'r ffigyrau hyn yn cymharu â threfi wedi eu meincnodi yn genedlaethol.
- Mae nifer y cwsmeriaid sy'n mynd heibio'n uchel yng nghanol y dref sy'n dangos cylchrediad da o amgylch y dref.
- Mae data'r llefydd gwag ar gyfer Bae Colwyn yn dangos lefel gyfartalog o 16% ar draws y dref, sy'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ac yn gynnydd bach ers y flwyddyn flaenorol.
- O ran perfformiad busnes diweddar, dywedodd 46% fod trosiant wedi cynyddu neu aros yr un fath dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ffigwr cyfunol hwn yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol o 44% i drefi bach ac mae ychydig gwell na ffigyrau'r flwyddyn flaenorol (57%). Roedd cyfran busnesau Bae Colwyn oedd wedi cynyddu neu gynnal eu proffidioldeb yn y 12 mis diwethaf yn 36% ac yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol i drefi bach (71%) a mawr (66%).
- Wrth edrych tuag at y dyfodol, mae cyfran llai o fusnesau (33%) yn disgwyl i drosiant fynd i fyny neu aros yr un fath o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (61%) ac mae hyn yn llai nag ar gyfer trefi mawr (79%) a bach (71%) yn genedlaethol.
- O'r ymateb gan fusnesau i'r arolwg, mae cwsmeriaid lleol posibl (75%) yn cael eu hystyried yn allweddol gadarnhaol o gael eu lleoli ym Mae Colwyn. Mae cymysgedd manwerthu (33%), cysylltiadau cludiant (29%), nifer yr ymwelwyr (29%) a chostau eiddo (29%) i gyd yn cael eu hystyried yn gadarnhaol gan o leiaf chwarter y busnesau wnaeth ymateb. Mae'r rhain yn cymharu â chyfartaledd cenedlaethol.
- O ran canfyddiadau negyddol am gael eu lleoli yng nghanol tref Bae Colwyn, roedd y mwyafrif o fusnesau wnaeth ymateb yn ystyried eiddo gwag (67%), parcio (63%), edrychiad ffisegol (50%), ffyniant y dref (50%) yn faterion allweddol ac mae'r rhain i gyd yn cymharu'n ffafriol gyda threfi yn genedlaethol.
- Pan ofynnwyd am agweddau cadarnhaol canol tref Bae Colwyn, roedd y defnyddwyr yn llawer mwy cadarnhaol na busnesau: Rhwyddineb cerdded o amgylch canol y dref (93%); mynediad at wasanaethau (87%); cyfleustod (89%); gwasanaeth cwsmeriaid (86%); cysylltiadau cludiant (82%); diogelwch (77%); caffis/bwytai (72%)

eto wedi derbyn ymateb cadarnhaol gan ddwy ran o dair o ymatebwyr. Mae pob un o'r lefelau hyn o ymateb yn cymharu'n ffafriol gyda threfi eraill yn genedlaethol.

- O ran materion negyddol, mae'r ymatebion gan ddefnyddwyr canol tref yn llawer mwy cymedrol gydag ond cynnig manwerthu (43%) a'r edrychiad ffisegol (36%) yn cael eu hystyried yn wael gan fwy na thraean o'r ymatebwyr.
- Mae nifer y troseddau taflu sbwriel a gofnodwyd yng nghanol y dref CDLl dynodedig yn isel.
- Mae yna adeiladau rhestredig yng nghanol y dref. Mae yna hefyd Ardal Gadwraeth ddynodedig.
- Mae yna ardaloedd penodol lle ceir troseddau mynych ym Mae Colwyn, ond nid yw lefel gyffredinol y troseddau a gofnodir yn bryder.

4.3 Llanfairfechan

- Mae arolygon yn dangos bod 77% o fusnesau yn y CDLl dynodedig yn siopau A1, sy'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.
- O'r unedau A1, mae cyfran is o'r rhain yn gwerthu nwyddau cymharol wrth gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol. Mae lefel yr unedau sy'n gwerthu nwyddau cyfleus yn uwch.
- Mae yna gyfran uchel o fanwerthwyr annibynnol yn Llanfairfechan, sy'n helpu i sefydlu hunaniaeth unigryw. Mae yna ddau frand amlfasnachwr cenedlaethol, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond sy'n adlewyrchu maint y ganolfan fanwerthu.
- Mae nifer y llwybrau bysiau a threnau, a pha mor aml y ceir gwasanaethau, yn dangos bod Llanfairfechan yn hygyrch gyda chludiant cyhoeddus.
- Mae data lleoedd gwag ar gyfer Llanfairfechan yn dangos lefel cyfartaledd o 15%, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ond yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.
- Mae yna adeiladau rhestredig yn gyfagos i ganol y dref. Mae yna hefyd Ardal Gadwraeth ddynodedig a Pharc a Gardd Hanesyddol.
- Mae yna ardaloedd penodol lle ceir troseddau bach yn Llanfairfechan, ond mae lefel gyffredinol y troseddau a gofnodir yn cael ei hystyried yn isel.

4.4 Penmaenmawr

- Mae arolygon yn dangos bod 64% o fusnesau yn y CDLl dynodedig yn siopau A1, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.
- O'r unedau A1, mae cyfran is o'r rhain yn gwerthu nwyddau cymharol wrth gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol. Mae lefel yr unedau sy'n gwerthu nwyddau cyfleus yn uwch. Mae gwasanaethau hefyd yn uwch.
- Mae yna gyfran uchel o fanwerthwyr annibynnol ym Mhenmaenmawr, sy'n helpu i sefydlu hunaniaeth unigryw. Mae yna ddau frand amlfasnachwr cenedlaethol, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond sy'n adlewyrchu maint y ganolfan fanwerthu.
- Mae nifer y llwybrau bysiau a threnau, a pha mor aml y ceir gwasanaethau, yn dangos bod Penmaenmawr yn hygyrch gyda chludiant cyhoeddus.
- Mae data lleoedd gwag ar gyfer Penmaenmawr yn dangos lefel cyfartaledd o 7%, sy'n cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn is na'r flwyddyn flaenorol.
- Mae yna rai adeiladau rhestredig yn gyfagos i ganol y dref. Mae yna hefyd Ardal Gadwraeth ddynodedig.

- Mae yna ardaloedd penodol lle ceir troseddau bach ym Mhenmaenmawr, ond mae lefel gyffredinol y troseddau a gofnodir yn cael ei hystyried yn isel.

4.5 Conwy

- Mae arolygon yn dangos bod 62% o fusnesau yn y CDLl dynodedig yn siopau A1, sy'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae A3 Bwyd a diod yn llawer uwch, gan ddangos bod y gymysgedd fymryn yn anghytbwys.
- O'r unedau A1, mae cyfran o'r rhain sy'n gwerthu nwyddau cymharol yn cymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol. Mae lefel yr unedau sy'n gwerthu nwyddau cyfleus yn uwch.
- Mae yna gyfran uchel o fanwerthwyr annibynnol yng Nghonwy, sy'n helpu i sefydlu hunaniaeth unigryw. Mae yna bump brand amlfasnachwr cenedlaethol, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond sy'n adlewyrchu maint y ganolfan fanwerthu.
- Mae nifer y llwybrau bysiau a threnau, a pha mor aml y ceir gwasanaethau, yn dangos bod Conwy yn hygyrch gyda chludiant cyhoeddus.
- Mae data lleoedd gwag ar gyfer Conwy yn dangos lefel cyfartaledd o 4%, sy'n llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn is na'r flwyddyn flaenorol.
- Mae yna nifer o adeiladau rhestredig yng nghanol y dref. Mae yna hefyd Ardal Gadwraeth ddynodedig a Chastell Conwy, sy'n Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, sydd o bwys rhyngwladol.
- Mae yna ardaloedd penodol lle ceir troseddau bach yng Nghonwy, ond mae lefel gyffredinol y troseddau a gofnodir yn cael ei hystyried yn isel.

4.6 Cyffordd Llandudno

- Mae arolygon yn dangos bod 55% o fusnesau yn y CDLl dynodedig yn siopau A1, sy'n debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol.
- O'r unedau A1, mae cyfran is o'r rhain yn gwerthu nwyddau cymharol wrth gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol. Mae lefel yr unedau sy'n gwerthu nwyddau cyfleus hefyd yn is a gwasanaethau'n llawer uwch.
- Mae yna gyfran uchel o fanwerthwyr annibynnol yng Nghyffordd Llandudno, sy'n helpu i sefydlu hunaniaeth unigryw. Mae yna ddau frand amlfasnachwr cenedlaethol, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond sy'n adlewyrchu maint y ganolfan fanwerthu.
- Mae nifer y llwybrau bysiau a threnau, a pha mor aml y ceir gwasanaethau, yn dangos bod Cyffordd Llandudno yn hygyrch iawn gyda chludiant cyhoeddus.
- Mae data lleoedd gwag ar gyfer Cyffordd Llandudno yn dangos lefel cyfartaledd o 10%, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ond yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.
- Mae yna un ardal fach lle ceir troseddau mynych yng Nghyffordd Llandudno, ac mae lefel gyffredinol y troseddau a gofnodir yn cael ei hystyried yn isel.

4.7 Abergele

- Mae arolygon yn dangos bod 58% o fusnesau yn y CDLl dynodedig yn siopau A1, sy'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.
- O'r unedau A1, mae cyfran is o'r rhain yn gwerthu nwyddau cymharol wrth gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol. Mae lefel yr unedau sy'n gwerthu nwyddau cyfleus yn gymharol a gwasanaethau'n uwch.

- Mae yna gyfran uchel o fanwerthwyr annibynnol yn Abergele, sy'n helpu i sefydlu hunaniaeth unigryw. Mae yna bump o frandiau masnachwyr lluosog cenedlaethol ac un atyniad allweddol, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond yn dda i dref o'r maint yma.
- Mae nifer y llwybrau bysiau a threnau, a pha mor aml y ceir gwasanaethau, yn dangos bod Abergele yn hygyrch gyda chludiant cyhoeddus, fodd bynnag, mae cwsmeriaid canol y dref yn annhebygol o ddefnyddio'r orsaf drenau oherwydd y pellter o ganol y dref.
- Mae data'r llefydd gwag ar gyfer Abergele yn dangos lefel gyfartalog o 11%, sy'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ac yn gynnydd bach ers y flwyddyn flaenorol.
- Mae yna rai adeiladau rhestredig yng nghanol y dref, ac o'i chwmpas. Mae yna hefyd Ardal Gadwraeth ddynodedig.
- Mae yna ardaloedd bach lle ceir troseddau mynych yn Abergele, ond mae lefel gyffredinol y troseddau a gofnodir yn cael ei hystyried yn isel.

4.8 Llanrwst

- Mae arolygon yn dangos bod 59% o fusnesau yn y CDLl dynodedig yn siopau A1, sy'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.
- O'r unedau A1, mae cyfran is o'r rhain yn gwerthu nwyddau cymharol wrth gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol. Mae lefel yr unedau sy'n gwerthu nwyddau cyfleus a gwasanaethau yn uwch.
- Mae yna gyfran uchel o fanwerthwyr annibynnol yn Llanrwst, sy'n helpu i sefydlu hunaniaeth unigryw. Mae yna dri brand amlfasnachwr cenedlaethol, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond sy'n adlewyrchu maint y ganolfan fanwerthu.
- Mae nifer y llwybrau bysiau a threnau, a pha mor aml y ceir gwasanaethau, yn dangos bod Llanrwst yn hygyrch gyda chludiant cyhoeddus.
- Mae data'r llefydd gwag ar gyfer Llanrwst yn dangos lefel gyfartalog o 14%, sy'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ac yn gynnydd ers y flwyddyn flaenorol.
- Mae yna rai adeiladau rhestredig yng nghanol y dref, ac o'i chwmpas. Mae yna hefyd Ardal Gadwraeth ddynodedig.
- Mae yna ardaloedd penodol bach lle ceir troseddau mynych yn Llanrwst, ond mae lefel gyffredinol y troseddau a gofnodir yn cael ei hystyried yn isel.

5 Llandudno

5.1 Cyflwyniad cyffredinol

5.1.1 Mae Llandudno yn cael ei ddiffinio yn hierarchaeth manwerthu'r CDLl fel canolfan isranbarthol. Mae dynodiadau'r CDLl yn cynnwys Prif Ardal Siopa, Parth Siopa a Pharciau Manwerthu ym Mharc Llandudno a Mostyn Champneys. Yn 2017, roedd yna 288 uned manwerthu yn y dynodiadau canol tref. Dyma'r uchaf i bob canolfan manwerthu yn ardal y CDLl.

Map 1: Dynodiadau manwerthu CDLl yn Llandudno
Ffynhonnell: CDLl Conwy 2007-2022



5.2 Dosbarthiadau defnydd

5.2.1 Mae yna lefel uchel o A1 (siopau) yn ardaloedd manwerthu Llandudno, yn arbennig y Brif Ardal Siopa. Mae hyn yn adlewyrchu'r dynodiad a blaenoriaeth a roddir i ddefnydd A1 yn y lleoliad hwn. Er ei fod yn is, mae'r Parth Siopa yn parhau â chanran A1 uchel, sydd hefyd yn uwch na'r cyfartaledd trefi mawr a bach cenedlaethol yn gyffredinol. Mae defnydd A2 (gwasanaethau ariannol a phroffesiynol) yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, a allai fod yn bryder, gan fod angen ystod o ddefnydd ar gyfer iechyd canol tref iach ac mae'n ofyniad polisi cynllunio cenedlaethol. Mae A3 (bwyd a diod) hefyd yn isel wrth

gymharu â chyfartaledd trefi cenedlaethol a'r Fwrdeistref Sirol. Mae siopau prydau parod ychydig yn is, yn arbennig yn y Prif Ardal Siopa.

Tabl 1: dosbarthiadau Defnydd yn Llandudno (2017)
Ffynhonnell: Experian; ymweliad safle CBSC ac adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	A1		A2		A3		A2 ac A3		Siop prydau parod poeth	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol		52%		13%		17%		30%		3%
Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol										
Bwrdeistref Sirol		52%		14%		16%		30%		4%
Conwy*		68%		12%		21%		32%		11%
Llandudno*	204	71%	24	8%	60	21%	72	25%	7	2%
Prif Ardal Siopa	123	77%	12	8%	25	16%	37	24%	3	2%
Parth Siopa	81	63%	12	9%	33	27%	35	27%	4	3%

*Dyma'r cyfanswm ar gyfer Prif Ardal Siopa a Pharthau Siopa'r CDLl dynodedig yn unig.

5.2.2 Gweler Atodiad 2 ar gyfer mapiau sy'n dangos dosbarthiad dosbarthiadau defnydd yn ardaloedd y CDLl dynodedig.

Tabl 2: Dosbarthiadau defnydd dros amser yn Llandudno
Ffynhonnell: Ymweliadau safle Experian a CBSC

	Blwydd yn	A1		A2		A3		Dim-A1		Siop prydau parod poeth	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Bwrdeistref Sirol Conwy*	**2014**	523	66%	110	14%	164	21%	274	34%	44	6%
	2017	613	68%	107	12%	187	21%	294	32%	100	11%
Llandudno*	**2014**	197	72%	25	9%	53	19%	78	28%	7	3%
	2017	204	71%	24	8%	60	21%	84	29%	7	2%
Prif Ardal Siopa	**2014**	119	79%	12	8%	20	13%	32	21%	3	2%
	2017	123	77%	12	8%	25	16%	37	23%	3	2%
Parth Siopa	**2014**	78	63%	13	10%	33	27%	46	37%	4	3%
	2017	81	63%	12	9%	35	27%	47	37%	4	3%

*Dyma'r cyfanswm ar gyfer Prif Ardal Siopa a Pharthau Siopa'r CDLl dynodedig yn unig.

5.2.3 Bu gostyngiad bach yn lefel A1 (siopau) yng nghanol y dref, ond mewn gwirionedd, mae'r nifer o unedau A1 wedi cynyddu ychydig. Mae'r nifer o A2 (gwasanaethau ariannol a phroffesiynol) wedi gostwng un. Mae'r nifer o A3 (bwyd a diod) wedi cynyddu, y rhan fwyaf yn y Prif Ardal Siopa CDLl. Mae hyn yn adlewyrchu tueddiadau manwerthu cenedlaethol, lle mae'r galw am ddefnydd caffi wedi cynyddu. Ni fu unrhyw newid yn y nifer o unedau prydau parod poeth yn Llandudno.

Siart 1: Dosbarthiadau defnydd dros amser yn Llandudno
Ffynhonnell: Ymweliadau safle Experian a CBSC



5.3 Isddosbarth manwerthu

Tabl 3: Isddosbarth manwerthu yn Llandudno (2017)
Ffynhonnell: Ymweliadau safle ac Experian

	Bwrdeistref Sirol Conwy *	Llandudno					
		Cyfanswm*		Prif Ardal Siopa		Parth Siopa	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Pob uned **	871	284		153		131	
Cyfleustra	8%	23	8%	16	10%	7	5%
Cymhariaeth	40%	130	46%	81	53%	49	37%
Gwasanaeth	52%	131	46%	56	37%	75	57%
Gwasanaethau ariannol a busnes	9%	20	7%	11	7%	9	7%
Gwasanaethau iechyd a meddygol	1%	2	1%	0	0%	2	2%
Gwasanaethau hamdden	25%	67	24%	28	18%	39	30%
Gwasanaethau cyhoeddus	2%	3	1%	1	1%	2	2%
Gwasanaethau manwerthu	14%	38	13%	16	10%	22	17%
Gwasanaethau cerbyd a chludiant	1%	1	0%	0	0%	1	1%

*Dyma'r cyfanswm ar gyfer Prif Ardal Siopa a Pharthau Siopa'r CDLl dynodedig yn unig.
**cynnwys defnydd arall ar gyfer manwerthu. Nid yw'n cynnwys mannau gwag.

5.3.1 Mae Llandudno yn cynnwys cyfran uwch o unedau manwerthu sy'n gwerthu nwyddau cymharol wrth gymharu â'r Fwrdeistref Sirol, yn arbennig yn y Brif Ardal Siopa. Mae hyn yn adlewyrchu ei swyddogaeth manwerthu fel canolfan siopa is-ranbarthol, ond gall ei adael yn fwy bregus o ran cystadleuaeth gan ganolfannau manwerthu mawr eraill neu siopa ar-lein. Mae cyfran y gwasanaethau yn is na lefel y Fwrdeistref Sirol ar gyfer Llandudno yn gyffredinol, ond mae'n uwch yn y Parth Siopa, sydd i'w ddisgwyl ac mae'n dilyn argymhellion polisi manwerthu cenedlaethol ar gyfer amrywiol ddefnydd i'w sicrhau yn yr ardaloedd hyn.

Tabl 4: Isddosbarth manwerthu dros amser yn Llandudno
Ffynhonnell: Ymweliadau safle ac Experian

	Blwyddyn	Cyfanswm unedau**	Cyfleustra		Cymhariaeth		Gwasanaeth	
			Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Bwrdeistref Sirol Conwy*	**2014**	879		9%		40%		51%
	2017	871		8%		40%		52%
Llandudno*	**2014**	286	26	9%	139	49%	121	42%
	2017	284	23	8%	130	46%	131	46%
Prif Ardal Siopa	**2014**	155	18	12%	88	57%	49	32%
	2017	153	16	10%	81	53%	56	37%
Parth Siopa	**2014**	131	8	6%	51	39%	72	55%
	2017	131	7	5%	49	37%	75	57%

*Dyma'r cyfanswm ar gyfer Prif Ardal Siopa a Pharthau Siopa'r CDLl dynodedig yn unig.
**cynnwys defnydd arall ar gyfer manwerthu. Nid yw'n cynnwys mannau gwag.

5.3.2 Mae lefelau is-ddosbarth manwerthu wedi newid ers 2014 yn Llandudno yn y Prif Ardal Siopa a'r Parthau Siopa. Mae'r nifer o unedau cyfleus wedi gostwng tair uned yn gyffredinol yn y ddau ddynodiad. Mae'r nifer o unedau cymhariaeth hefyd wedi gostwng naw uned yn gyffredinol yn y ddau ddynodiad. Mae'r nifer o unedau gwasanaeth wedi cynyddu yn y ddau ddynodiad.

Siart 2: Isddosbarth manwerthu dros amser yn Llandudno
Ffynhonnell: Ymweliadau safle Experian a CBSC



5.4 Atynwyr allweddol ac amlfasnachwyr

Tabl 5: Atynwyr allweddol ac amlfasnachwyr yn Llandudno (2017)

Ffynhonnell: Experian; adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd) ac ymweliadau safle CBSC

	Prif atyniad		Amlfasnachwr		Masnachwr rhanbarthol		Masnachwr annibynnol		Siopau elusen	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol		10%		25%		10%		56%		-
Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol		7%		19%		10%		64%		-
Bwrdeistref Sirol Conwy*		4%		16%		2%		72%		6%
Llandudno (cyfanswm)	27	7%	114	27%	6	1%	242	58%	26	6%
Canol tref Llandudno *	9	5%	45	24%	3	2%	121	63%	13	7%
Prif Ardal Siopa	9	8%	40	35%	3	3%	56	49%	7	6%
Parth Siopa	0	0%	5	7%	0	0%	65	86%	6	8%
Parciau manwerthu	9	27%	24	73%	0	0%	0	0%	0	0%

*Dyma'r cyfanswm ar gyfer Prif Ardal Siopa a Pharthau Siopa'r CDLl dynodedig yn unig.
DS Nid yw'n cynnwys unedau gwag

5.4.1 Mae yna naw brand manwerthu cenedlaethol sy'n atyniad allweddol yng nghanol tref Llandudno a naw arall yn y parciau manwerthu. Mae hyn ychydig yn is na'r hyn a ganfyddir yn genedlaethol mewn trefi mawr, ond yn debyg i drefi bach. Mae yna hefyd nifer fawr o frandiau amlfasnachwr cenedlaethol yn Llandudno, yn arbennig yn y Prif Ardal Siopa. Mae'r lefel hon yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae'n adlewyrchu swyddogaeth manwerthu Llandudno fel canolfan siopa is-ranbarthol. Mae'r Parth Siopa yn cynnwys masnachwyr annibynnol yn bennaf, gyda nifer fach o siopau elusen ac amlfasnachwyr cenedlaethol. Mae hyn ychydig yn anghytbwys, ond mae'n dangos bod yr enwau mawr yn cael eu denu i'r ganolfan fanwerthu craidd, sydd i'w ddisgwyl. Mae'r lefel o fasnachwyr annibynnol yn gyffredinol yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae'n dangos bod gan Llandudno ei hunaniaeth ei hun.

Tabl 6: Atynwyr allweddol ac amlfasnachwyr dros amser yn Llandudno
Ffynhonnell: Ymweliadau safle Experian a CBSC

	Blwy ddyn	Cyfan swm A1**	Atynnwr allweddol		Amlfasnachwr		Masnachwr Rhanbarthol		Masnachwr Annibynnol		Elusen	
			Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Bwrdeistref Sirol Conwy *	**2014**	538	21	4%	111	21%	5	1%	361	67%	40	7%
	2017	542	19	4%	88	16%	9	2%	391	72%	35	6%
Canol tref Llandudno *	**2014**	198	12	6%	53	27%	3	2%	113	57%	17	9%
	2017	191	9	5%	45	24%	3	2%	121	63%	13	7%
Prif Ardal Siopa	**2014**	120	12	10%	44	37%	3	3%	55	46%	6	5%
	2017	115	9	8%	40	35%	3	3%	56	49%	7	6%
Parth Siopa	**2014**	78	0	0%	9	12%		0%	58	74%	11	14%
	2017	76	0	0%	5	7%		0%	65	86%	6	8%

*Dyma'r cyfanswm ar gyfer Prif Ardal Siopa a Pharthau Siopa'r CDLl dynodedig yn unig.
** Nid yw'n cynnwys unedau gwag

5.4.2 Bu rhywfaint o newid yn y cydbwysedd rhwng brandiau manwerthu cenedlaethol mwy a masnachwyr annibynnol lleol yn Llandudno ers mabwysiadu'r CDLl. Mae gostyngiad o dair uned yn y nifer o atyniadau allweddol, pob un o Brif Ardal Siopa'r CDLl dynodedig. Mae'r nifer o frandiau amlfasnachwr cenedlaethol hefyd wedi gostwng wyth uned yn gyffredinol, pedwar o bob un o'r Prif Ardal Siopa a'r Parth Siopa. Mae'r nifer o fasnachwyr annibynnol wedi cynyddu wyth uned yn gyffredinol, y rhan fwyaf yn y Parth Siopa. Bu gostyngiad o saith siop elusen.

Siart 3: Atyniadau allweddol ac amlfasnachwyr dros amser yn Llandudno
Ffynhonnell: Ymweliadau safle Experian a CBSC



5.5 Hygyrchedd

Trafnidiaeth gyhoeddus

Tabl 7: Trenau yn gwasanaethu Llandudno (2018)
Ffynhonnell: Trenau Arriva Cymru

Taith	Diwrnod	Siwrnai i mewn	Siwrnai allan	Cyfanswm siwrnai'r dydd
Llundain - Birmingham - Crewe - Manceinion-Caer – Caergybi	Dydd Llun – Dydd Gwener	24	27	51
	Dydd Sadwrn	33	32	65
	Dydd Sul*	15	15	30
Birmingham – Yr Amwythig - Caer – Caergybi	Dydd Llun-Dydd Gwener	1	3	4
	Dydd Sadwrn	-	-	-
	Dydd Sul	-	-	-
Llandudno - Blaenau Ffestiniog	Dydd Llun-dydd Gwener	5	4	9
	Dydd Sadwrn	-	-	-
	Dydd Sul	-	-	-

*Rhwng 20/05 a 09/09 yn unig

5.5.1 Mae gorsaf drên Llandudno oddeutu 20 metr o un rhan o ymyl y Parth Siopa dynodedig ac oddeutu 250 metr o’r rhan arall. Mae gan yr orsaf nifer o drenau rheolaidd dydd Llun – dydd Sadwrn, ond llai ar ddydd Sul.

Map 2: Arhosfan bws yn gwasanaethu Llandudno
Ffynhonnell: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



5.5.2 Mae yna 11 arhosfan bws ym Mhrif Ardal Siopa'r CDLl a Pharthau Siopa Llandudno, gydag eraill gerllaw. Mae'r ganolfan fanwerthu wedi'i gwasanaethu'n dda gan ystod o lwybrau bysiau pob diwrnod o'r wythnos, er bod yna lai o wasanaethau ar ddydd Sul.

Tabl 8: Bysiau yn gwasanaethu Llandudno (2018)
Ffynhonnell: Arriva

Prif lwybr	Diwrnod Gwasanaeth	Siwrnai i mewn	Siwrnai allan	Cyfanswm siwrnai'r dydd
Rhif 5 Bangor - Llanfairfechan - Penmaenmawr - Conwy – Cyffordd Llandudno - Llandudno	Llun-Gwen	31	29	60
	Sad	31	28	59
	Sul	14	14	28
Rhif 12 Llandudno – Llandrillo-yn-Rhos – Bae Colwyn - Abergele - Towyn – Bae Cinmel – y Rhyl	Llun-Gwen	69	69	138
	Sad	69	69	138
	Sul	-	-	-
Rhif 13 Llandudno - Mochdre – Bae Colwyn - Abergele – Prestatyn	Llun-Gwen	25	24	49
	Sad	24	24	48
	Sul	-	-	-
Rhif 14/15 Conwy - Deganwy - Llandudno – Llandrillo-yn-Rhos – Bae Colwyn – Llysfaen	Llun-Gwen	27	27	54
	Sad	27	25	52
	Sul	-	-	-
Rhif 19 Cwm Penmachno - Betws-y-Coed - Llanrwst - Conwy – Cyffordd Llandudno - Llandudno	Llun-Gwen	13	12	25
	Sad	13	12	25
	Sul	-	-	-
Rhif 25 Eglwysbach - Glan Conwy – Cyffordd Llandudno - Llandudno	Llun-Gwen	7	7	14
	Sad	7	7	14
	Sul	-	-	-
Rhif 26 Y Gogarth - Llandudno – Y Gogarth (gwasanaeth cylchol)	Llun-Gwen	10	10	10
	Sad	10	10	10
	Sul	-	-	-
Rhif 75 Llandudno - Deganwy – Cyffordd Llandudno - Conwy - Penmaenmawr - Llanfairfechan	Llun-Gwen	2	2	4
	Sad	2	2	4
	Sul	-	-	-
Rhif X5 Bangor - Llanfairfechan - Penmaenmawr - Conwy - Deganwy - Llandudno	Llun-Gwen	22	23	45
	Sad	19	22	41
	Sul	11	11	22
Rhif X19 Blaenau Ffestiniog - Dolwyddelan - Betws-y-Coed - Llanrwst - Conwy – Cyffordd Llandudno - Deganwy - Llandudno	Llun-Gwen	9	10	19
	Sad	8	8	16
	Sul	-	-	-

Maes parcio

5.5.3 Mae 15% o fannau gwag yn cael ei ystyried fel y trothwy lleiaf ar gyfer argaeledd parcio ar y stryd. Mae'r cyfraddau gwag ar gyfer y math hwn o barcio yn 5%, llawer is na'r lefel a argymhellir. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau barn cwsmeriaid, lle roedd yna

lawer o sylwadau am anhawster dod o hyd i le parcio ar y stryd yn Llandudno. Roedd y lefel 36% o fannau gwag mewn meysydd parcio yn dangos ei bod yn gymharol hawdd dod o hyd i le parcio o'r math hwn yn Llandudno.

Tabl 9: parcio yn Llandudno (2017)
Ffynhonnell: ymweliad safle

	Trefi mawr cenedlaethol	Trefi bach cenedlaethol	Llandudno	
			Nifer	%
Holl feysydd parcio canol y dref	**-**	**-**	**1,370**	
Mannau arhosiad byr (4 awr a llai)	47%	38%	250	18%
Mannau arhosiad hir (dros 4 awr)	39%	53%	1,120	82%
Mannau i'r anabl	4%	7%	67	5%
Mannau gwag	34%	34%	394	29%
Meysydd parcio	92%	84%	1,032	75%
Mannau arhosiad byr (4 awr a llai)	44%	29%	102	10%
Mannau arhosiad hir (dros 4 awr)	42%	61%	930	90%
Mannau i'r Anabl	4%	7%	55	5%
Mannau gwag	35%	38%	376	36%
Ar y stryd	8%	16%	338	25%
Mannau arhosiad byr (4 awr a llai)	85%	82%	148	44%
Mannau arhosiad hir (dros 4 awr)	4%	12%	190	56%
Mannau i'r anabl	10%	6%	12	4%
Mannau gwag	17%	18%	18	5%
Y tu allan i'r dref	-	-	1,021	-
Mannau i'r anabl	-	-	35	3%
Mannau gwag	-	-	664	65%

5.6 Llif cerddwyr

5.6.1 Mae'r data yn nodi bod rhannau o Landudno yn llawer prysurach na chyfartaledd trefi bach cenedlaethol. Mae'n awgrymu nad yw cerddwyr yn symud o'r brif ardal manwerthu i rannau eraill o'r dref, lle mae nifer yr ymwelwyr yn llawer is. Mae angen mwy o arolygon i fonitro hyn i weld os yw'n dueddiad rheolaidd.

Tabl 10: llif cerddwyr yn Llandudno (2017)

Ffynhonnell: Ymweliadau safle CBSC ac adroddiad canol ein tref Bae Colwyn (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

Safle	Cyfartaledd tref fawr genedlaethol	Cyfartaledd tref fach genedlaethol	Cyfartaledd ar gyfer Llandudno	Amser		
				10-11am	11am-12pm	12-1pm
Y tu allan i Sainsbury's Mostyn Street	239	86	66	35	71	93
Y tu allan i'r llyfrgell Mostyn Street			140	93	160	168
Y tu allan i Fanc Lloyds			140	90	168	163
Trinity Gyferbyn â Londis Madoc Street			29	26	29	33

5.6.2 Mae lleoliad pwyntiau'r arolwg ar y map isod.

Map 3: Lleoliad ar gyfer llif cerddwyr yn Llandudno

Ffynhonnell: Ymweliad safle CBSC



5.7 Cyfraddau gwacter

Tabl 11: Cyfraddau gwacter yn Llandudno (2017)

Ffynhonnell: Ymweliadau safle ac Experian

	Cyfanswm nifer unedau manwerthu	Gwag	
		Nifer	%
Trefi mawr cenedlaethol	**-**	**-**	**7%**
Trefi bach cenedlaethol	**-**	**-**	**9%**
Bwrdeistref Sirol Conwy *	**907**	**96**	**11%**
Canol tref Llandudno *	288	17	6%
Prif Ardal Siopa	160	10	6%
Parth Siopa	128	7	5%

*Dyma'r cyfanswm ar gyfer Prif Ardal Siopa a Pharthau Siopa'r CDLl dynodedig yn unig.

5.7.1 Mae'r cyfraddau gwag yn Llandudno yn isel sef 6% yn unig, ac mae'n debyg i gyfartaledd tref fawr genedlaethol. Roedd 11 allan o'r 17 uned canol tref yn wag am fwy na 12 mis. Bydd angen monitro hyn yn y dyfodol, gan fod mannau gwag hirdymor yn achosi pryder. Wrth edrych ar fannau gwag ers mabwysiadu'r CDLl yn 2013, bu gostyngiad bach yn y 12 mis diwethaf, sydd wedi dod â'r lefelau yn ôl fel yr oeddent yn 2014.

Siart 4: Mannau gwag dros amser yn Llandudno

Ffynhonnell: Ymweliadau safle ac Experian



5.8 Barn cwsmeriaid

Arolwg hyder busnes

5.8.1 Dosbarthwyd holiaduron i holl fusnesau yng nghanol tref Llandudno a'r parciau manwerthu. Roedd 62 wedi dychwelyd yr arolwg ac mae'r canfyddiadau wedi eu crynhoi yn y tablau canlynol.

Tabl 12: Canlyniadau arolwg ar gyfer Llandudno (2017)
Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	Cyfartaledd tref fawr genedlaethol	Cyfartaledd tref fach genedlaethol	Llandudno	
			Nifer	%
Natur y busnes?				
Manwerthu	56%	63%	42	70%
Gwasanaethau ariannol	14%	12%	7	12%
Sector cyhoeddus	1%	2%	0	0%
Bwyd a diod	13%	13%	10	17%
Llety	1%	1%	1	2%
Arall	15%	9%	3	5%
Math o fusnes?				
Amlfasnachwr	11%	0%	14	23%
Masnachwr rhanbarthol	11%	14%	8	13%
Masnachwr annibynnol	78%	86%	38	63%
Lle mae eich busnes wedi'i leoli?				
Canol tref	-	-	55	92%
Parc Llandudno	-	-	1	2%
Mostyn Champneys	-	-	2	3%
Ers faint mae'r busnes wedi bod yn y dref?				
Llai na blwyddyn	4%	11%	2	3%
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	27%	13%	12	20%
Chwech i ddeg mlynedd	9%	11%	11	18%
Mwy na deg mlynedd	60%	44%	35	58%
O'i gymharu â'r llynedd ydy eich trosiant wedi…?				
Cynyddu	42%	33%	17	28%
Aros yr un fath	29%	11%	10	17%
Gostwng	29%	44%	31	52%
O'i gymharu â'r llynedd ydy proffidioldeb wedi…?				
Cynyddu	37%	43%	15	25%
Aros yr un fath	27%	29%	16	27%
Gostwng	36%	29%	27	45%
Dros y 12 mis nesaf ydych chi'n meddwl y bydd eich trosiant yn…?				
Cynyddu	43%	57%	14	23%
Aros yr un fath	36%	14%	22	37%
Gostwng	21%	29%	22	37%

5.8.2 O'r busnesau wnaeth ymateb i'r arolwg, roedd 70% yn fanwerthwyr, 36% yn siopau cadwyn cenedlaethol neu ranbarthol a 63% yn annibynnol. Mae hyn yn cynrychioli

cymysgedd o'r mathau busnes yn y dref. Mae 76% o'r busnesau wedi hen sefydlu yn Llandudno ar ôl bod yno am fwy na chwe blynedd.

5.8.3 O ran perfformiad busnes diweddar, dywedodd 45% fod trosiant wedi cynyddu neu aros yr un fath dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ffigwr cyfunol hwn yn cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 44% i drefi bach ond yn llai na'r trefi mawr (71%). Roedd cyfran busnesau Llandudno oedd wedi cynyddu neu gynnal eu proffidioldeb yn y 12 mis diwethaf yn 52% ac yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol i drefi bach (71%) a mawr (66%).

5.8.4 Wrth edrych tua'r dyfodol, mae 52% o fusnesau yn disgwyl i drosiant fynd i fyny neu aros yr un fath. Mae hyn yn llai na threfi mawr (79%) a bach (71%) yn genedlaethol. Mae'r ffaith bod 37% o fusnesau canol tref a pharc manwerthu Llandudno yn disgwyl i broffidioldeb barhau i ostwng yn y flwyddyn i ddod yn achosi pryder. Mae hyn yn uwch na threfi yn genedlaethol ac mae'n ymddangos bod gostyngiadau mewn perfformiad o flwyddyn i flwyddyn yn awgrymu bod y gyfran hon o fusnesau yn arbennig o fregus i gystadleuaeth mewn mannau eraill.

5.8.5 Mae digwyddiadau trosedd i berchnogion busnes sydd wedi ymateb yn Llandudno yn uwch (47%) na'r cyfartaledd cenedlaethol (36% trefi mawr a 28% trefi bach). Roedd bron pob trosedd ar gyfer dwyn.

Tabl 13: Canlyniadau arolwg ar gyfer Llandudno (2017)
Ffynhonnell: Adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Llandudno
Ydy eich busnes wedi dioddef unrhyw drosedd yn ystod y 12 mis diwethaf?			
Ydy	36%	28	47%
Nac ydy	64%	32	53%
Pa fath o drosedd mae eich busnes wedi'i ddioddef? (ymatebion 'ydy' o'r uchod yn unig wedi eu cynnwys)			
Dwyn	63%	73%	96%
Difrod troseddol	39%	25%	18%
Cam-drin	17%	14%	18%
Arall	16%	4%	0%

5.8.6 O'r ymatebion gan fusnesau i'r arolwg, mae cwsmeriaid twristiaeth posibl (72%) a chwsmeriaid lleol (70%) yn cael eu hystyried yn allweddol gadarnhaol o gael eu lleoli yn Llandudno. Mae ffyniant (48%), nifer yr ymwelwyr (45%), ymddangosiad ffisegol (43%), cynnig manwerthu (42%), lleoliad (35%), digwyddiadau/gweithgareddau (32%) a chysylltiadau cludiant (27%) i gyd yn cael eu hystyried yn gadarnhaol gan o leiaf chwarter y busnesau wnaeth ymateb. Mae'r rhain yn cymharu'n gyffredinol â chyfartaledd cenedlaethol, heblaw cwsmeriaid twristiaeth a digwyddiadau/ gweithgareddau, sy'n sylweddol uwch.

5.8.7 O ran canfyddiadau negyddol ynglŷn â chael eu lleoli yng nghanol tref Llandudno, roedd mwyafrif o fusnesau wnaeth ymateb yn ystyried parcio (62%) a gwerth rhent (50%) yn

faterion allweddol. Mae parcio yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gwerth rhent yn debyg.

Tabl 14: Canlyniadau arolwg ar gyfer Llandudno (2017)

Ffynhonnell: Adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	Agweddau cadarnhaol o gael eu lleoli yng nghanol y dref			Agweddau negyddol o gael eu lleoli yng nghanol y dref		
	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Llandudno	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Llandudno
Ymddangosiad Corfforol	44%	44%	43%	22%	22%	3%
Ffyniant	39%	39%	48%	29%	29%	2%
Cronfa lafur	-	-	3%	14%	14%	13%
Lleoliad	-	39%	35%	-	-	3%
Cynnig manwerthu	39%	40%	42%	7%	7%	8%
Unedau gwag	-	-	-	21%	21%	37%
Cwsmeriaid twristiaeth	40%	36%	72%	41%	41%	2%
Cwsmeriaid lleol	36%	77%	70%	11%	11%	2%
Tai Fforddiadwy	77%	15%	5%	3%	3%	7%
Cysylltiadau cludiant	15%	34%	27%	10%	10%	5%
Nifer yr ymwelwyr	34%	-	45%	14%	14%	7%
Meysydd parcio	26%	32%	17%	20%	20%	62%
Gwerthoedd rhentu	32%	16%	12%	50%	50%	50%
Marchnad	16%	14%	7%	-	-	3%
Digwyddiadau/ Gweithgareddau	14%	22%	32%	40%	40%	7%
Marchnata/ Hyrwyddo	22%	10%	13%	37%	37%	3%
Partneriaethau Lleol / Sefydliadau	10%	17%	7%	7%	7%	0%
Cystadleuaeth Busnes	-	-	-	29%	29%	17%
Cystadleuaeth: ardaloedd eraill	-	-	-	10%	10%	18%
Cystadleuaeth: siopau y tu allan i'r dref	-	-	-	17%	17%	35%
Cystadleuaeth: Rhyngrwyd	-	-	-	25%	25%	40%
Arall	17%	3%	5%	5%	5%	12%

Arolwg defnyddwyr canol tref

5.8.8 Mae'r ymatebion gan ddefnyddwyr canol tref yn dangos sampl o'r arolwg canol wythnos sy'n cynnwys mwy o ferched (78%) na dynion (22%) ac ychydig dros hanner (51%) dros 65. Mae hyn yn cynnwys llawer mwy o bobl hŷn na threfi tebyg. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn y dref ar gyfer hamdden (33%) ac i gael mynediad i wasanaethau (25%). Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond mae'n adlewyrchu Llandudno fel cyrchfan i dwristiaid. Mae 17% yn ymweld â Llandudno yn ddyddiol a 29% mwy nag

unwaith yr wythnos, sydd ychydig is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 23% yn ymweld unwaith y mis neu lai, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n debyg o fod o ganlyniad i dwristiaeth.

Tabl 15: Canlyniadau arolwg ar gyfer Llandudno (2017)
Ffynhonnell: Adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Llandudno	
			Nifer	%
Rhyw				
Gwryw	35%	32%	22	22%
Benyw	65%	67%	77	78%
Oed				
16-25	8%	7%	0	0%
26-35	18%	15%	10	10%
36-45	22%	24%	12	12%
46-55	20%	22%	8	8%
56-65	16%	16%	19	19%
Dros 65	16%	14%	50	51%
Ar gyfer beth ydych yn arfer ymweld â'r dref?				
Gwaith	11%	10%	11	11%
Siopa cyfleus	40%	43%	19	19%
Siopa cymharol	9%	6%	7	7%
Mynediad i wasanaethau	19%	19%	25	25%
Hamdden	13%	11%	33	33%
Arall	9%	11%	4	4%
Pa mor aml ydych yn ymweld â chanol y dref?				
Dyddiol	19%	21%	17	17%
Mwy nag unwaith yr wythnos	37%	35%	29	29%
Wythnosol	21%	21%	12	12%
Bob pythefnos	7%	7%	3	3%
Mwy nag unwaith y mis	6%	6%	7	7%
Unwaith y mis neu lai	9%	10%	23	23%
Ymweliad cyntaf	-	-	8	8%

5.8.9 Roedd y mwyafrif (65%) yn teithio mewn car, sy'n cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. 14% yn teithio ar fws, sy'n sylweddol uwch nac yn genedlaethol. Roedd 8% yn unig yn teithio ar droed, sy'n llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond efallai yn adlewyrchu proffil oed ymatebwyr.

5.8.10 Mae gwariant yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. 32% yn gwario dros £50.00 yn Llandudno, o'i gymharu â 10% a 5% yn unig yn genedlaethol.

Tabl 16: Canlyniadau arolwg ar gyfer Llandudno (2017)
Ffynhonnell: Adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Llandudno	
			Nifer	%
Sut ydych chi'n arfer teithio i ganol y dref?				
Ar droed	31%	31%	8	8%
Beic	1%	1%	2	2%
Car	58%	62%	64	65%
Bws	7%	4%	14	14%
Trên	0%	0%	2	2%
Arall	2%	2%	9	9%
Faint ydych yn arfer ei wario?				
Dim	3%	3%	0	0%
£0.01-£5.00	9%	11%	0	0%
£5.01-£10.00	19%	23%	14	14%
£10.01-£20.00	30%	32%	17	17%
£20.01-£50.00	28%	24%	36	36%
Mwy na £50.00	10%	5%	32	32%
Am faint ydych yn aros yng nghanol y dref?				
Llai nag awr	-	41%	5	5%
1-2 awr	-	41%	21	21%
2-4 awr	--	10%	21	21%
4-6 awr	-	2%	14	14%
Drwy'r dydd	-	4%	31	31%
Fyddech chi'n argymell ymweliad â chanol y dref?				
Byddwn	-	59%	86	87%
Na fyddwn	-	41%	0	0%
O lle ydych wedi teithio?				
Llandudno			28	28%
Conwy / Deganwy / Cyffordd Llandudno			11	11%
Bae Colwyn			22	22%
Rhan arall o Sir Conwy			3	3%
Rhan arall o Ogledd Cymru			4	4%
Rhan arall o Loegr			29	29%

5.8.11 Pan ofynnwyd am agweddau cadarnhaol canol tref Llandudno, mae defnyddwyr yn amlwg yn fwy cadarnhaol nag yn genedlaethol. Roedd ymddangosiad corfforol (100%), glanweithdra (99%), gwasanaeth cwsmeriaid (97%), caffis / bwytai (96%), cynnig manwerthu (94%), mynediad at wasanaethau (91%) i gyd yn sgorio'n uchel iawn.

5.8.12 O ran agweddau negyddol, roedd yr ymatebion gan ddefnyddwyr canol tref yn isel iawn, gyda meysydd parcio yn unig yn cael eu hystyried yn wael gan fwy na thraean o'r ymatebwyr.

Tabl 17: Canlyniadau arolwg ar gyfer Llandudno (2017)
Ffynhonnell: Adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	Agweddau cadarnhaol o gael eu lleoli yng nghanol y dref			Agweddau negyddol o gael eu lleoli yng nghanol y dref		
	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Llandudno	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Llandudno
Ymddangosiad corfforol	37%	36%	100%	30%	37%	0%
Glanweithdra	31%	35%	99%	31%	25%	0%
Cynnig manwerthu	29%	19%	94%	42%	53%	4%
Gwasanaeth Cwsmer	23%	24%	97%	8%	9%	0%
Caffis / Bwytai	29%	32%	96%	5%	20%	2%
Mynediad i wasanaethau	58%	56%	91%	5%	13%	0%
Cyfleusterau hamdden	13%	10%	66%	9%	25%	11%
Digwyddiadau/ Gweithgareddau	15%	14%	74%	9%	19%	8%
Tafarndai / bariau / clybiau nos	12%	20%	62%	10%	22%	11%
Cysylltiadau cludiant	21%	18%	70%	12%	15%	6%
Hawdd cerdded o amgylch canol y dref	67%	56%	87%	5%	6%	1%
Cyfleustra e.e. ger lle rydych yn byw	67%	64%	68%	5%	4%	1%
Diogelwch	17%	18%	66%	7%	12%	0%
Parcio	28%	32%	44%	41%	39%	37%
Marchnadoedd	43%	25%	34%	9%	25%	13%
Arall	5%	7%	0%	17%	16%	0%

5.9 Amgylchedd naturiol ac adeiledig

Sbwriel a graffiti

5.9.1 Yn 2017/18 roedd yna bump achos wedi'i gofnodi o sbwriel ym Mharthau Siopa a Phrif Ardal Siopa dynodedig y CDLl yn Llandudno a phump arall yn y parciau manwerthu. Roedd yna ddigwyddiadau ychwanegol wedi eu cofnodi'n gyfagos. Nid yw data hanesyddol ar gael ar gyfer cymharu, fodd bynnag, mae hyn yn ymddangos yn nifer isel o ddigwyddiadau taflu sbwriel yng nghanol y dref. Nid oedd yna achosion o graffiti wedi eu cofnodi yng nghanol y dref.

Map 4: Achosion o sbwriel yn Llandudno 2017/18

Ffynhonnell: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



Gwyrddlesni

5.9.2 Mae'r map isod yn dangos bod yna nifer sylweddol o goed aeddfed o fewn ac yn yr ardal o amgylch Prif Ardal Siopa a Pharth Siopa dynodedig y CDLl yn Llandudno.

Map 5: Coed aeddfed yn Llandudno 2017/18

Ffynhonnell: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Yr Amgylchedd Hanesyddol

5.9.3 Mae'r map isod yn dangos bod yna lawer o adeiladau rhestredig yng nghanol y dref. Maent yn cynrychioli rhan allweddol o dreftadaeth adeiledig y Fwrdeistref Sirol. Mae hefyd yn dangos ffin yr Ardal Gadwraeth ddynodedig a Thirwedd Hanesyddol. Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys nodweddion allweddol amlwg. Mae'r dynodiadau hanesyddol hyn yn cyfrannu at hunaniaeth unigryw Llandudno.

Map 6: Dynodiadau hanesyddol yn Llandudno 2017/18
Ffynhonnell: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



5.10 Trosedd a diogelwch

5.10.1 Roedd yna 605 o ddigwyddiadau trosedd wedi eu cofnodi yng nghanol tref Llandudno yn 2017/18. Mae'r map isod yn dangos bod yna rai mannau problemus, lle mae yna achosion uwch o drosedd. Bydd angen dadansoddiad pellach dros amser yn y dyfodol i fonitro tueddiadau.

Map 7: Achosion o drosedd yn Llandudno 2017/18
Ffynhonnell: Gwefan Swyddfa Gartref www.Police.UK, 2018



6 Bae Colwyn

6.1 Cyflwyniad cyffredinol

6.1.1 Mae Bae Colwyn yn cael ei ddiffinio yn hierarchaeth manwerthu'r CDLl fel canol tref. Mae dynodiadau CDLl yn cynnwys Prif Ardal Siopa a Pharth Siopa. Yn 2017, roedd yna 254 uned manwerthu yn y dynodiadau canol tref. Dyma'r ail ganolfan fwyaf yn hierarchaeth manwerthu'r CDLl.

Map 8: Dynodiadau manwerthu CDLl ym Mae Colwyn
Ffynhonnell: CDLl Conwy 2007-2022



6.2 Dosbarthiadau defnydd

6.2.1 Mae yna lefel uchel o siopau A1 yn ardaloedd manwerthu Bae Colwyn sef 72% yn gyffredinol. Mae'r lefelau yn debyg ar draws Prif Ardal Siopa a Pharth Siopa dynodedig y CDLl. Mae'r CDLl a pholisi cenedlaethol yn ceisio sicrhau canran A1 uwch yn y prif ardaloedd o'i gymharu ag ardaloedd eilaidd. Mae hyn yn awgrymu bod ffiniau'r

ardaloedd hyn angen eu hadolygu, er mwyn diogelu swyddogaeth manwerthu A1 yr ardal graidd. Mae'r lefelau o'u cymharu â'r cyfartaledd trefi bach a mawr cenedlaethol yn uwch. Mae defnydd A2 (gwasanaethau ariannol a phroffesiynol) ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, yn arbennig yn y Prif Ardal Siopa. Mae A3 (bwyd a diod) yn debyg i'r cyfartaledd trefi mawr a bach cenedlaethol. Mae'r lefel yn y Prif Ardal Siopa yn uwch nag yn y Parth Siopa, sydd eto yn awgrymu bod y ffiniau angen eu hadolygu.

Tabl 18: Dosbarthiadau defnydd ym Mae Colwyn (2017)
Ffynhonnell: Experian; ymweliad safle CBSC ac adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	A1		A2		A3		A2 & A3		Siopau Prydau Parod Poeth	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol		52%		13%		17%		30%		3%
Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol		52%		14%		16%		30%		4%
Bwrdeistref Sirol Conwy*		68%		12%		21%		32%		11%
Bae Colwyn *	184	72%	25	10%	45	18%	70	28%	14	6%
Prif Ardal Siopa	74	73%	8	8%	19	19%	27	27%	4	4%
Parth Siopa	110	72%	17	11%	26	17%	43	28%	10	7%

*Dyma'r cyfanswm ar gyfer Prif Ardal Siopa a Pharthau Siopa'r CDLl dynodedig yn unig.

6.2.2 Gweler Atodiad 2 ar gyfer mapiau sy'n dangos dosbarthiad dosbarthiadau defnydd yn ardaloedd y CDLl dynodedig.

Tabl 19: Dosbarthiadau defnydd dros amser ym Mae Colwyn
Ffynhonnell: Ymweliadau safle Experian a CBSC

	Blwydd yn	A1		A2		A3		Dim-A1		Siop Prydau Parod Poeth	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Bwrdeistref Sirol Conwy *	**2014**	**523**	**66%**	**110**	**14%**	**164**	**21%**	**274**	**34%**	**44**	**6%**
	2017	**613**	**68%**	**107**	**12%**	**187**	**21%**	**294**	**32%**	**100**	**11%**
Bae Colwyn *	**2014**	149	70%	27	13%	37	17%	64	30%	14	7%
	2017	184	72%	25	10%	45	18%	70	28%	14	6%
Prif Ardal Siopa	**2014**	58	72%	9	11%	14	17%	23	28%	4	5%
	2017	74	73%	8	8%	19	19%	27	27%	4	4%
Parth Siopa	**2014**	91	69%	18	14%	23	17%	41	31%	10	8%
	2017	110	72%	17	11%	26	17%	43	28%	10	7%

*Dyma'r cyfanswm ar gyfer Prif Ardal Siopa a Pharthau Siopa'r CDLl dynodedig yn unig.

6.2.3 Bu cynnydd sylweddol o 35 uned yn y nifer o A1 (siopau) ym Mae Colwyn rhwng 2014 a 2017, er bod canran y defnydd o A1 yn gyffredinol wedi parhau'n debyg. Bu gostyngiad bach yn y nifer o A2 (gwasanaethau ariannol a phroffesiynol). Mae yna gynnydd o chwech yn y nifer o A3 (bwyd a diod). Mae hyn yn adlewyrchu tueddiadau manwerthu

cenedlaethol, lle mae'r galw am ddefnydd caffi wedi cynyddu. Ni fu unrhyw newid yn y nifer o unedau prydau parod poeth ym Mae Colwyn.

Siart 5: Dosbarthiadau defnydd dros amser ym Mae Colwyn
Ffynhonnell: Ymweliadau safle Experian a CBSC



6.3 Isddosbarth manwerthu

Tabl 20: Isddosbarth manwerthu ym Mae Colwyn (2017)
Ffynhonnell: Ymweliadau safle ac Experian

	Bwrdeist ref Sirol Conwy	Bae Colwyn					
		Cyfanswm		Prif Ardal Siopa		Parth Siopa	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Pob uned **	871	232		95		137	
Cyfleustra	8%	12	5%	6	6%	6	4%
Cymhariaeth	40%	111	48%	52	55%	59	43%
Gwasanaeth	52%	109	47%	37	39%	72	53%
Gwasanaethau Ariannol a Busnes	9%	20	9%	6	6%	14	10%
Gwasanaethau Iechyd a Meddygol	1%	4	2%	2	2%	2	1%
Gwasanaethau Hamdden	25%	52	22%	23	24%	29	21%
Gwasanaethau Cyhoeddus	2%	4	2%	1	1%	3	2%
Gwasanaethau Manwerthu	14%	28	12%	5	5%	23	17%
Gwasanaethau Cerbydau a Chludiant	1%	1	0%	0	0%	1	1%

*Dyma'r cyfanswm ar gyfer Prif Ardal Siopa a Pharthau Siopa'r CDLl dynodedig yn unig.
**cynnwys defnydd arall ar gyfer manwerthu. Nid yw'n cynnwys mannau gwag.

6.3.1 Mae Bae Colwyn yn cynnwys cyfran uwch o unedau manwerthu sy'n gwerthu nwyddau cymharol wrth gymharu â'r Fwrdeistref Sirol, yn arbennig yn y Prif Ardal Siopa. Mae hyn yn amlygu swyddogaeth y dref fel canol tref a chyrchfan manwerthu, a'r ail ganolfan fanwerthu fwyaf yn y Fwrdeistref Sirol. Mae cyfran y gwasanaethau yn is na lefel y Fwrdeistref Sirol ar gyfer Bae Colwyn yn gyffredinol, ond mae'n debyg yn y Parth Siopa, sydd i'w ddisgwyl ac mae'n dilyn argymhellion polisi manwerthu cenedlaethol ar gyfer amrywiol ddefnydd i'w sicrhau yn yr ardaloedd hyn.

Tabl 21: Isddosbarth manwerthu dros amser ym Mae Colwyn
Ffynhonnell: Ymweliadau safle ac Experian

	Blwyd dyn	Cyfanswm unedau**	Cyfleustra		Cymhariaeth		Gwasanaeth	
			Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Bwrdeistref Sirol Conwy *	**2014**	879		9%		40%		51%
	2017	871		8%		40%		52%
Bae Colwyn *	**2014**	228	15	7%	110	48%	103	45%
	2017	232	12	5%	111	48%	109	47%
Prif Ardal Siopa	**2014**	86	7	8%	46	53%	33	38%
	2017	95	6	6%	52	55%	37	39%
Parth Siopa	**2014**	142	8	6%	64	45%	70	49%
	2017	137	6	4%	59	43%	72	53%

*Dyma'r cyfanswm ar gyfer Prif Ardal Siopa a Pharthau Siopa'r CDLl dynodedig yn unig.
**cynnwys defnydd arall ar gyfer manwerthu. Nid yw'n cynnwys mannau gwag.

6.3.2 Mae lefelau is-ddosbarth manwerthu wedi gweld newid bach ers 2014 ym Mae Colwyn yn y Prif Ardal Siopa a'r Parthau Siopa. Mae'r nifer o unedau cyfleus wedi gostwng tair uned yn gyffredinol yn y ddau ddynodiad. Mae'r nifer o unedau cymhariaeth wedi aros yn debyg yn gyffredinol, ond mae'r Prif Ardal Siopa wedi gweld cynnydd, a'r Parth Siopa wedi gweld gostyngiad. Mae'r nifer o unedau gwasanaeth wedi cynyddu yn y ddau ddynodiad.

Siart 6: Isddosbarth manwerthu dros amser ym Mae Colwyn
Ffynhonnell: Ymweliadau safle Experian a CBSC



6.4 Atyniadau allweddol ac amlfasnachwyr

Tabl 22: Atynwyr allweddol ac amlfasnachwyr ym Mae Colwyn (2017)
Ffynhonnell: Experian; adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd) ac ymweliadau safle CBSC

	Bwrdeistref Sirol Conwy	Cyfartaledd Cenedlaethol		Bae Colwyn					
		Trefi mawr	Trefi bach	Cyfanswm*		Prif Ardal Siopa		Parth Siopa	
				Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Holl unedau manwerthu A1 **	542			145		62		83	
Prif Atyniadwr	4%	10%	7%	7	5%	7	11%	0	0%
Amlfasnachwr	16%	25%	19%	26	18%	23	37%	3	4%
Masnachwr Rhanbarthol	2%	10%	10%	1	1%	0	0%	1	1%
Masnachwr annibynnol	72%	56%	64%	103	71%	26	42%	77	93%
Siopau elusen	6%	-	-	8	6%	6	10%	2	2%

*Dyma'r cyfanswm ar gyfer Prif Ardal Siopa a Pharthau Siopa'r CDLl dynodedig yn unig.
** Nid yw'n cynnwys unedau gwag

6.4.1 Mae yna saith brand manwerthu cenedlaethol sy'n brif atynnwr ym Mae Colwyn. Mae hyn yn lefel is na'r hyn a ganfyddir yn genedlaethol mewn trefi mawr a bach, ond dim llawer llai na Llandudno. Mae yna hefyd nifer fawr o frandiau amlfasnachwr cenedlaethol ym Mae Colwyn, yn arbennig yn y Prif Ardal Siopa. Mae'r lefel hon yn fwy cymharol â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn adlewyrchu swyddogaeth manwerthu Bae Colwyn fel yr ail ganolfan fanwerthu fwyaf yn y CDLl. Mae'r Parth Siopa yn cynnwys masnachwyr annibynnol yn bennaf, gyda nifer fach o siopau elusen ac amlfasnachwyr cenedlaethol. Mae hyn ychydig yn anghytbwys, ond mae'n dangos bod

yr enwau mawr yn cael eu denu i'r ganolfan fanwerthu craidd, sydd i'w ddisgwyl. Mae'r lefel o fasnachwyr annibynnol yn gyffredinol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae'n dangos bod gan Fae Colwyn ei hunaniaeth ei hun.

Tabl 22: Atynwyr allweddol ac amlfasnachwyr dros amser ym Mae Colwyn
Ffynhonnell: Ymweliadau safle Experian a CBSC

	Blwyddyn	Cyfanswm A1**	Prif attynwr		Amlfasnachwr		Masnachwr Rhanbarthol		Masnachwr annibynnol		Elusen	
			Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Bwrdeistref Sirol Conwy *	**2014**	538	21	4%	111	21%	5	1%	361	67%	40	7%
	2017	542	19	4%	88	16%	9	2%	391	72%	35	6%
Bae Colwyn *	**2014**	148	7	5%	32	22%	1	1%	98	66%	10	7%
	2017	145	7	5%	26	18%	1	1%	103	71%	8	6%
Prif Ardal Siopa	**2014**	58	7	12%	28	48%		0%	16	28%	7	12%
	2017	62	7	11%	23	37%		0%	26	42%	6	10%
Parth Siopa	**2014**	90		0%	4	4%	1	1%	82	91%	3	3%
	2017	83		0%	3	4%	1	1%	77	93%	2	2%

*Dyma'r cyfanswm ar gyfer Prif Ardal Siopa a Pharthau Siopa'r CDLl dynodedig yn unig.
** Nid yw'n cynnwys unedau gwag

6.4.2 Bu rhywfaint o newid yn y cydbwysedd rhwng brandiau manwerthu cenedlaethol mwy a masnachwyr annibynnol lleol ym Mae Colwyn ers mabwysiadu'r CDLl. Mae'r nifer o brif atynwyr wedi aros yr un fath. Mae yna chwech uned yn llai o amlfasnachwyr. Mae'r mwyafrif o hyn ym Mhrif Ardal Siopa dynodedig y CDLl. Mae yna gynnydd o bump uned yn y nifer o fasnachwyr annibynnol yn gyffredinol. Mae yna gynnydd o ddeg uned yn y nifer yn y Prif Ardal Siopa, ond mae'r Parth Siopa wedi gweld gostyngiad o bump uned. Gallai hyn fod o ganlyniad i fusnesau yn adleoli i leoliad gwell, yng nghanol y ganolfan fanwerthu.

Siart 7: Atyniadau allweddol ac amlfasnachwyr dros amser ym Mae Colwyn
Ffynhonnell: Ymweliadau safle Experian a CBSC



6.5 Hygyrchedd

Trafnidiaeth gyhoeddus

Tabl 24: Trenau sy'n gwasanaethu Bae Colwyn (2018)
Ffynhonnell: Trenau Arriva Cymru

Llwybr	Diwrnod	Siwrnai i mewn	Siwrnai allan	Cyfanswm siwrnai y dydd
Llundain - Birmingham - Crewe – Manceinion - Caer - Caergybi	Llun-Gwener	44	36	80
	Sadwrn	38	34	72
	Sul*	16	20	36
Birmingham – Yr Amwythig - Caer - Caergybi	Llun-Gwener	14	14	28
	Sadwrn	14	14	28
	Sul	3	3	6

6.5.1 Mae gorsaf drên Bae Colwyn oddeutu 80 metr o ymyl y Brif Ardal Siopa ddynodedig. Mae'r orsaf yn cael ei gwasanaethu'n dda gan drenau dydd Llun-dydd Sadwrn, gyda llai o wasanaethau ar ddydd Sul.

Map 9: Arhosfan bws yn gwasanaethu Bae Colwyn
Ffynhonnell: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



6.5.2 Mae yna saith arhosfan bws ym Mhrif Ardal Siopa'r CDLl a Pharthau Siopa Bae Colwyn, gydag eraill gerllaw. Mae'r ganolfan fanwerthu wedi'i gwasanaethu'n dda gan ystod o lwybrau bysiau pob diwrnod o'r wythnos, er bod yna lai o wasanaethau ar ddydd Sul.

Tabl 25: Bysiau sy'n gwasanaethu Bae Colwyn (2018)
Ffynhonnell: Arriva

Prif lwybr	Diwrnod Gwasanaeth	Siwrnai i mewn	Siwrnai allan	Cyfanswm siwrnai y dydd
Rhif 12 Llandudno – Llandrillo-yn-Rhos – Bae Colwyn - Abergele - Towyn – Bae Cinmel – Y Rhyl	Llun-Gwen	71	71	142
	Sad	71	71	142
	Sul	38	38	76
Rhif 13 Llandudno - Mochdre – Bae Colwyn - Abergele - Prestatyn	Llun-Gwen	25	24	49
	Sad	25	24	49
	Sul	12	12	24
Rhif 14/15 Conwy - Deganwy - Llandudno – Llandrillo-yn-Rhos – Bae Colwyn - Llysfaen	Llun-Gwen	25	26	51
	Sad	25	25	50
	Sul	-	--	
Rhif 21 Abergele - Rhyd-y-Foel - Betws-yn-Rhos – Bae Colwyn	Llun-Gwen	5	4	9
	Sad	3	7	10
	Sul	-	-	-
Rhif 23 Hen Golwyn – Bae Colwyn – Hen Golwyn (gwasanaeth cylchol)	Llun-Gwen	11	11	11
	Sad	10	10	10
	Sul	-	-	-
Rhif 27 Conwy – Cyffordd Llandudno - Mochdre – Bae Colwyn – Hen Golwyn	Llun-Gwen	11	13	24
	Sad	11	13	24
	Sul	-	-	-

Maes parcio

6.5.1 Mae data yn dangos yn gyffredinol bod Bae Colwyn yn lle cymharol hawdd i ddod o hyd i fan parcio yn ystod yr wythnos, gyda 30% o lefydd ar gael ar ddiwrnod prysur a 32% ar ddiwrnod arferol. Mae'r ffigyrau hyn yn cymharu â threfi wedi eu meincnodi yn genedlaethol. Yn wahanol i nifer yr ymwelwyr, nid yw'r defnydd o feysydd parcio yn dangos gwahaniaeth sylweddol ar ddiwrnod marchnad.

6.5.2 Byddai angen dadansoddiad mwy manwl i archwilio sut mae dosbarthiad o amgylch y dref yn cyfateb i anghenion defnyddwyr. Mae yna arwydd bod argaeledd parcio ar y stryd yn cyrraedd sefyllfa o argyfwng wrth iddo gyrraedd ychydig dros 15% o fannau gwag sy'n cael ei ystyried fel isafswm trothwy.[1]

[1] Ffynhonnell: Adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

Tabl 26: parcio ym Mae Colwyn (2017)
Ffynhonnell: Adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	Trefi mawr cenedlaethol	Trefi bach cenedlaethol	Bae Colwyn	
			Nifer	%
Holl feysydd parcio canol y dref	**-**	**-**	**900**	**-**
Mannau arhosiad byr (4 awr a llai)	47%	38%	371	41%
Mannau arhosiad hir (dros 4 awr)	39%	53%	486	54%
Mannau i'r anabl	4%	7%	43	5%
Mannau gwag (diwrnod marchnad)	31%	31%	273	30%
Mannau gwag (diwrnod tawel)	36%	37%	286	32%
Meysydd parcio	92%	84%	673	75%
Mannau arhosiad byr (4 awr a llai)	44%	29%	183	27%
Mannau arhosiad hir (dros 4 awr)	42%	61%	451	67%
Mannau i'r anabl	4%	7%	39	6%
Mannau gwag (diwrnod farchnad)	32%	35%	222	33%
Mannau gwag (diwrnod tawel)	37%	40%	244	36%
Ar y stryd	8%	16%	227	25%
Mannau arhosiad byr (4 awr a llai)	85%	82%	188	83%
Mannau arhosiad hir (dros 4 awr)	4%	12%	35	15%
Mannau i'r anabl	10%	6%	4	2%
Mannau gwag (diwrnod marchnad)	16%	15%	51	22%
Mannau gwag (diwrnod tawel)	18%	20%	42	19%

6.6 Llif cerddwyr

6.6.1 Mae'r data yn nodi bod Bae Colwyn yn llawer prysurach na chyfartaledd trefi bach cenedlaethol ar gyfer diwrnod marchnad a dyddiau eraill. Mae hefyd yn dangos bod cerddwyr yn cylchdroi o amgylch rhannau eraill o'r dref.

Tabl 27: llif cerddwyr ym Mae Colwyn (2017)

Ffynhonnell: Ymweliad safle CBSC, adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	Safle	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Cyfartaledd i Fae Colwyn	Amser		
					10:45-11:10	11:45-12:10	12:45-13:10
Diwrnod farchnad	Mynedfa Bay View	325	98	285	264	294	299
	Gwaelod Ffordd yr Orsaf			251	287	213	253
Dim diwrnod farchnad	Mynedfa Bay View	239	86	204	197	190	226
	Gwaelod Ffordd yr Orsaf			186	163	214	181

6.6.2 Mae lleoliad pwyntiau'r arolwg ar y map isod.

Map 10: Lleoliad ar gyfer llif cerddwyr ym Mae Colwyn

Ffynhonnell: Ymweliadau safle CBSC, adroddiad canol ein tref Bae Colwyn (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)



6.7 Cyfraddau gwacter

Tabl 28: Cyfraddau gwacter ym Mae Colwyn (2017)

Ffynhonnell: Ymweliadau safle ac Experian

	Cyfanswm nifer unedau manwerthu	Gwag	
		Nifer	%
Trefi mawr cenedlaethol	-	-	7%
Trefi bach cenedlaethol	-	-	9%
Bwrdeistref Sirol Conwy *	907	96	11%
Bae Colwyn *	254	42	17%
Prif Ardal Siopa	101	13	13%
Parth Siopa	153	29	19%

*Dyma'r cyfanswm ar gyfer Prif Ardal Siopa a Pharthau Siopa'r CDLl dynodedig yn unig.

6.7.1 Mae'r gyfradd wag ym Mae Colwyn yn uchel sef 17%. Mae'r Parth Siopa yn arbennig o uchel sef 19%. Mae nifer o'r unedau hyn wedi bod yn wag ers yr arolwg yn 2014. Bydd angen monitro hyn yn y dyfodol, gan fod safleoedd gwag hirdymor yn achosi pryder. Wrth edrych ar fannau gwag ers mabwysiadu'r CDLl yn 2013, bu cynnydd bach yn y 12 mis diwethaf. Bydd hyn yn dal i gael ei fonitro.

Siart 8: Mannau gwag dros amser ym Mae Colwyn

Ffynhonnell: Ymweliadau safle ac Experian



6.8 Barn cwsmeriaid

Arolwg hyder busnes canol tref

6.8.1 Dosbarthwyd holiaduron i holl fusnesau yng nghanol tref Bae Colwyn. Roedd 24 wedi dychwelyd yr arolwg ac mae'r canfyddiadau wedi eu crynhoi yn y tabl isod. Mae hwn yn gyfradd dychwelyd da i arolwg o'r math hwn, fodd bynnag, dylid trin y canlyniadau'n ofalus gan fod y nifer yn isel.

Tabl 29: Canlyniadau arolwg ar gyfer Bae Colwyn (2017)
Ffynhonnell: Adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Bae Colwyn	
			Nifer	%
Natur busnes?				
Manwerthu	56%	63%	18	75%
Gwasanaethau ariannol	14%	12%	2	8%
Sector cyhoeddus	1%	2%	0	0%
Bwyd a diod	13%	13%	3	13%
Llety	1%	1%	0	0%
Arall	15%	9%	1	4%
Math o fusnes?				
Amlfasnachwr	11%	0%	4	17%
Masnachwr rhanbarthol	11%	14%	1	4%
Masnachwr annibynnol	78%	86%	19	79%
Ers faint mae eich busnes wedi bod yn y dref?				
Llai na blwyddyn	4%	11%	1	4%
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	27%	13%	5	21%
Rhwng chwech a deng mlynedd	9%	11%	0	0%
Dros ddeng mlynedd	60%	44%	18	75%
O'i gymharu â'r llynedd ydy eich trosiant wedi…?				
Cynyddu	42%	33%	4	17%
Aros yr un fath	29%	11%	7	29%
Gostwng	29%	44%	13	54%
O'i gymharu â'r llynedd, ydy eich proffidioldeb wedi…?				
Cynyddu	37%	43%	5	21%
Aros yr un fath	27%	29%	6	25%
Gostwng	36%	29%	13	54%
Yn ystod y 12 mis nesaf ydych chi'n meddwl y bydd eich trosiant wedi…?				
Cynyddu	43%	57%	4	17%
Aros yr un fath	36%	14%	6	26%
Gostwng	21%	29%	13	57%

6.8.2 O'r busnesau wnaeth ymateb i'r arolwg, roedd 75% yn fanwerthwyr, 17% yn siopau cadwyn cenedlaethol neu ranbarthol a 21% yn annibynnol. Mae hyn yn cynrychioli cymysgedd o'r mathau busnes yn y dref. Mae 75% o'r busnesau wedi hen sefydlu ym Mae Colwyn ar ôl bod yno am fwy na chwe blynedd.

6.8.3 O ran perfformiad busnes diweddar, dywedodd 46% fod trosiant wedi cynyddu neu aros yr un fath dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ffigwr cyfunol hwn yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol o 44% i drefi bach ac mae ychydig gwell na ffigyrau'r flwyddyn flaenorol (57%). Roedd cyfran o fusnesau Bae Colwyn oedd wedi cynyddu neu gynnal eu

proffidioldeb yn y 12 mis diwethaf yn 36% ac yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol i drefi bach (71%) a mawr (66%) ond mae'n well na ffigwr y flwyddyn flaenorol i'r dref (35%).

6.8.4 Wrth edrych tuag at y dyfodol, mae cyfran lai o fusnesau (33%) yn disgwyl i drosiant fynd i fyny neu aros yr un fath o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (61%) ac mae hyn yn llai nag ar gyfer trefi mawr (79%) a bach (71%) yn genedlaethol. Mae'n achos pryder bod cyfran sylweddol (57%) o fusnesau canol tref Bae Colwyn wnaeth lenwi'r arolwg yn disgwyl i broffidioldeb barhau i ostwng yn y flwyddyn i ddod. Mae hyn yn uwch na threfi yn genedlaethol ac mae'n ymddangos bod gostyngiadau mewn perfformiad o flwyddyn i flwyddyn yn awgrymu bod y gyfran hon o fusnesau yn arbennig o fregus i gystadleuaeth mewn mannau eraill.

6.8.5 Mae digwyddiadau trosedd i berchnogion busnes sydd wedi ymateb ym Mae Colwyn yn uwch (42%) na'r cyfartaledd cenedlaethol (36% trefi mawr a 26% trefi bach).

Tabl 30: Canlyniadau arolwg ar gyfer Bae Colwyn (2017)
Ffynhonnell: Adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Bae Colwyn
Ydy eich busnes wedi dioddef unrhyw drosedd yn ystod y 12 mis diwethaf?			
Ydy	36%	26%	42%
Nac ydy	64%	74%	58%

6.8.6 O'r ymateb gan fusnesau i'r arolwg, mae cwsmeriaid lleol posibl (75%) yn cael eu hystyried yn allweddol gadarnhaol o gael eu lleoli ym Mae Colwyn. Mae cymysgedd manwerthu (33%), cysylltiadau cludiant (29%), nifer yr ymwelwyr (29%) a chostau eiddo (29%) i gyd yn cael eu hystyried yn gadarnhaol gan o leiaf chwarter y busnesau wnaeth ymateb. Mae'r rhain yn cymharu â chyfartaledd cenedlaethol.

6.8.7 O ran canfyddiadau negyddol am gael eu lleoli yng nghanol tref Bae Colwyn, roedd y mwyafrif o fusnesau wnaeth ymateb yn ystyried eiddo gwag (67%), parcio (63%), edrychiad ffisegol (50%), ffyniant y dref (50%) yn faterion allweddol ac mae'r rhain i gyd yn cymharu'n anffafriol gyda threfi yn genedlaethol. [2]

[2] Adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

Tabl 31: Canlyniadau arolwg ar gyfer Bae Colwyn (2017)

Ffynhonnell: Adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	Agweddau cadarnhaol o fod yng nghanol y dref			Agweddau negyddol o fod yng nghanol y dref		
	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Bae Colwyn	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Bae Colwyn
Edrychiad corfforol	44%	44%	17%	22%	22%	50%
Ffyniant	39%	39%	0%	29%	29%	50%
Llafur	-	-	-	14%	14%	13%
Lleoliad	-	39%	21%	-	-	0%
Cynnig manwerthu	39%	40%	33%	7%	7%	8%
Unedau gwag	-	-	-	21%	21%	67%
Cwsmeriaid twristiaeth	40%	36%	17%	41%	41%	8%
Cwsmeriaid lleol	36%	77%	75%	11%	11%	8%
Tai fforddiadwy	77%	15%	17%	3%	3%	4%
Cysylltiadau trafnidiaeth	15%	34%	29%	10%	10%	4%
Nifer yr ymwelwyr	34%	-	29%	14%	14%	29%
Meysydd parcio	26%	32%	17%	20%	20%	63%
Gwerth rhentu	32%	16%	29%	50%	50%	21%
Marchnad	16%	14%	17%	-	-	4%
Gweithgareddau/ Digwyddiadau	14%	22%	21%	40%	40%	50%
Marchnata/ Hyrwyddo	22%	10%	0%	37%	37%	50%
Partneriaethau/ Sefydliadau Lleol	10%	17%	0%	7%	7%	13%
Cystadleuaeth busnes	-	-	-	29%	29%	13%
Cystadleuaeth/ lleoliadau eraill	-	-	-	10%	10%	8%
Cystadleuaeth: siopa y tu allan i'r dref	-	-	-	17%	17%	33%
Cystadleuaeth: rhyngrwyd	-	-	-	25%	25%	17%
Arall	17%	3%	21%	5%	5%	13%

Arolwg defnyddwyr canol tref

6.8.8 Mae'r ymatebion gan ddefnyddwyr canol tref yn dangos sampl o'r arolwg canol wythnos sy'n cynnwys merched a dynion (50%) a bron hanner (43%) dros 65 oed. Mae hyn yn cynnwys llawer mwy o bobl hŷn na threfi tebyg. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn y dref ar gyfer siopa cyfleus (35%) sydd wrth gwrs yn cynnwys ymweliadau â Morrisons ar gyfer siopa bwyd, yn ogystal â siopa cymharol (25%). Mae cyfran uchel (30%) yn ymweld â Bae Colwyn yn ddyddiol neu mwy nag unwaith yr wythnos (50%) sy'n awgrymu defnyddwyr canol tref ffyddlon.

Tabl 32: Canlyniadau arolwg ar gyfer Bae Colwyn (2017)
Ffynhonnell: Adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Bae Colwyn	
			Nifer	%
Rhyw				
Gwryw	35%	32%	50	50%
Benyw	65%	67%	50	50%
Oed				
16-25	8%	7%	7	7%
26-35	18%	15%	6	6%
36-45	22%	24%	15	5%
46-55	20%	22%	18	18%
56-65	16%	16%	17	17%
Dros 65	16%	14%	43	43%
Ar gyfer beth ydych yn ymweld â chanol y dref yn gyffredinol?				
Gwaith	11%	10%	11	11%
Siopa cyfleus	40%	43%	35	35%
Siopa cymharol	9%	6%	25	25%
Mynediad i wasanaethau	19%	19%	17	17%
Hamdden	13%	11%	8	8%
Arall	9%	11%	3	3%
Pa mor aml ydych chi'n ymweld â chanol y dref?				
Dyddiol	19%	21%	30	30%
Mwy nag unwaith yr wythnos	37%	35%	50	50%
Wythnosol	21%	21%	8	8%
Bob pythefnos	7%	7%	1	1%
Mwy nag unwaith y mis	6%	6%	2	2%
Unwaith y mis neu lai	9%	10%	5	5%
Ymweliad cyntaf	-	-	3	3%
O ble'r ydych wedi teithio?				
Lleol (o fewn y dref)	58%	66%	64	64%
Ymwelwyr (cod post o fewn 30 munud o daith)	23%	27%	27	27%
Twristiaid (cod post yn bellach na 30 munud i ffwrdd)	19%	7%	8	8%

6.8.9 Mae 27% o ddefnyddwyr canol y dref yn gwario mwy nag £20 ar ymweliad â chanol y dref ac mae hyn yn debyg i drefi bach yn genedlaethol (29%). [3]

[3] Adroddiad canol tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

Tabl 33: Canlyniadau arolwg ar gyfer Bae Colwyn (2017)
Ffynhonnell: Adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Bae Colwyn	
			Nifer	%
Sut ydych chi'n arfer teithio i ganol y dref?				
Ar droed	31%	31%	31	31%
Beic	1%	1%	0	0%
Car	58%	62%	55	55%
Bws	7%	4%	10	10%
Trên	0%	0%	0	0%
Arall	2%	2%	3	3%
Faint ydych chi'n arfer ei wario?				
Dim	3%	3%	6	6%
£0.01-£5.00	9%	11%	22	22%
£5.01-£10.00	19%	23%	19	19%
£10.01-£20.00	30%	32%	25	25%
£20.01-£50.00	28%	24%	12	12%
Mwy na £50.00	10%	5%	15	15%
Am faint ydych chi'n aros yng nghanol y dref?				
Llai nag awr	-	41%	17	17%
1-2 awr	-	41%	42	42%
2-4 awr	--	10%	25	25%
4-6 awr	-	2%	3	3%
Drwy'r dydd	-	4%	11	11%
Fyddech chi'n argymell ymweliad â chanol y dref?				
Byddwn	-	59%	74	74%
Na fyddwn	-	41%	25	25%

6.8.10 Pan ofynnwyd am agweddau cadarnhaol canol tref Bae Colwyn, roedd y defnyddwyr yn llawer mwy cadarnhaol na busnesau: Rhwyddineb cerdded o amgylch canol y dref (93%); mynediad at wasanaethau (87%); cyfleustod (89%); gwasanaeth cwsmeriaid (86%); cysylltiadau cludiant (82%); diogelwch (77%); caffis/bwytai (72%) eto wedi derbyn ymateb cadarnhaol gan ddwy ran o dair o ymatebwyr. Mae pob un o'r lefelau hyn o ymateb yn cymharu'n ffafriol gyda threfi eraill yn genedlaethol.

6.8.11 O ran materion negyddol, mae'r ymatebion gan ddefnyddwyr canol tref yn llawer mwy cymedrol gydag ond cynnig manwerthu (43%) a'r edrychiad ffisegol (36%) yn cael eu hystyried yn wael gan fwy na thraean o'r ymatebwyr. [4]

[4] Adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

Tabl 34: Canlyniadau arolwg ar gyfer Bae Colwyn (2017)
Ffynhonnell: Adroddiad canol ein tref Bae Colwyn 2017 (Partneriaeth Pobl a Lleoedd)

	Agweddau cadarnhaol o fod yng nghanol y dref			Agweddau negyddol o fod yng nghanol y dref		
	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Bae Colwyn	Cyfartaledd trefi mawr cenedlaethol	Cyfartaledd trefi bach cenedlaethol	Bae Colwyn
Edrychiad corfforol	37%	36%	47%	30%	37%	36%
Glendid	31%	35%	63%	31%	25%	21%
Cynnig manwerthu	29%	19%	44%	42%	53%	43%
Gwasanaeth cwsmeriaid	23%	24%	86%	8%	9%	5%
Caffis / bwytai	29%	32%	72%	5%	20%	4%
Mynediad i wasanaethau	58%	56%	87%	5%	13%	5%
Cyfleusterau hamdden	13%	10%	54%	9%	25%	6%
Digwyddiadau/ Gweithgareddau	15%	14%	60%	9%	19%	10%
Tafarnau / bariau / clybiau nos	12%	20%	31%	10%	22%	12%
Dolenni cludiant	21%	18%	82%	12%	15%	10%
Rhwyddineb cerdded o amgylch canol y dref	67%	56%	93%	5%	6%	5%
Cyfleustra e.e. Yn ymyl lle rydych yn byw	67%	64%	89%	5%	4%	7%
Diogelwch	17%	18%	77%	7%	12%	16%
Maes parcio	28%	32%	57%	41%	39%	21%
Marchnadoedd	43%	25%	61%	9%	25%	22%
Arall	5%	7%	0%	17%	16%	0%

6.9 Amgylchedd naturiol ac adeiledig

Sbwriel a graffiti

6.9.1 Yn 2017/18 roedd yna ddeuddeg achos wedi'i gofnodi o sbwriel ym Mharthau Siopa a Phrif Ardal Siopa dynodedig y CDLl ym Mae Colwyn. Roedd yna ddigwyddiadau ychwanegol wedi eu cofnodi'n gyfagos. Nid yw data hanesyddol ar gael ar gyfer cymharu, fodd bynnag, mae hyn yn ymddangos yn nifer isel o ddigwyddiadau taflu sbwriel yng nghanol y dref. Nid oedd yna achosion o graffiti wedi eu cofnodi yng nghanol y dref.

Map 11: Achosion o sbwriel ym Mae Colwyn 2017/18
Ffynhonnell: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



Yr Amgylchedd Hanesyddol

6.9.2 Mae'r map isod yn dangos bod yna adeiladau rhestredig yng nghanol y dref, yn arbennig ar hyd Ffordd yr Orsaf. Mae hefyd yn dangos ffin yr Ardal Gadwraeth ddynodedig. Mae'r Ardal Gadwraeth wedi'i diffinio gan gymysgedd eang o arddull adeiladau. Yn anffodus collwyd llawer o flaen siopau ar lefel stryd gwreiddiol, ond mae'r lloriau uchaf yn llawer mwy cyflawn. Mae'r dynodiadau hanesyddol hyn yn cyfrannu at hunaniaeth unigryw Bae Colwyn.

Map 12: Dynodiadau hanesyddol ym Mae Colwyn 2017/18
Ffynhonnell: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



6.10 Trosedd a diogelwch

6.10.1 Roedd yna 598 o ddigwyddiadau trosedd wedi eu cofnodi yng nghanol tref Bae Colwyn yn 2017/18. Mae'r map isod yn dangos bod yna rai mannau problemus, lle mae yna achosion uwch o drosedd. Bydd angen dadansoddiad pellach dros amser yn y dyfodol i fonitro tueddiadau.

Map 13: Achosion o drosedd ym Mae Colwyn 2017/18

Ffynhonnell: Gwefan Swyddfa Gartref www.Police.UK, 2018



7 Llanfairfechan

7.1 Cyflwyniad cyffredinol

7.1.1 Mae Llanfairfechan yn cael ei ddiffinio yn hierarchaeth manwerthu'r CDLl fel canol tref. Mae dynodiadau CDLl yn cynnwys Parth Siopa. Yn 2017, roedd yna 39 uned manwerthu yn y dynodiadau canol tref.

Map 14: Dynodiadau manwerthu CDLl yn Llanfairfechan
Ffynhonnell: CDLl Conwy 2007-2022



7.2 Dosbarthiadau defnydd

